PAPUR BRO BANGOR A'R FELINHELI

GORIAD

RHIF 414 • IONAWR 2022 • 50c

# DINAS - A SIR - LÂN A THACLUS



Y Cyng Catrin Wager ar waelod Allt Glanrafon – un o nifer o ardaloedd lle mae sbwriel yn broblem

**Bydd gwella golwg ardaloedd blêr yn flaenoriaeth gan Gyngor Gwynedd eleni, wedi i gabinet Plaid Cymru y Cyngor gymeradwyo buddsoddiad o £1.5 miliwn i scrhau cymunedau glân a thaclus yn y sir.**

Bydd yr arian yn cael ei wario ar gyflogi swyddogion a buddsoddi mewn cerbydau ac offer, ac mae cynghorwyr y Blaid yn awyddus i sicrhau eu bod yn gwrando ar bryderon trigolion am yr ardaloedd dan sylw.

Yn ôl y Cynghorydd Plaid Cymru sydd â'r cyfrifoldeb dros y gwaith, Catrin Wager (ward Menai, Bangor), mae'r cynllun Cymunedau Glân a Thaclus yn rhoi balchder a hygrededd cymunedol yn ôl i ardaloedd.

"Fy ngobaith i yw y bydd trigolion yn teimlo bod golwg eu hardaloedd yn gwella, bod strydoedd, pentrefi a threfi yn cael eu twtio, a gwaith yn digwydd i wella ansawdd eu hamgylchedd wrth fynd i'r afael ag ardaloedd problemus."

Torri chwyn a gordyfiant; glanhau arwyddion ffyrdd; golchi, atgyweirio a gosod biniau stryd a biniau baw cŵn; clirio tipio neu lanast anghyfreithlon; mân waith peintio a thacluso ymylon ffyrdd – dyna rai o'r tasgau y bydd y Tîm Cymunedau Glân a Thaclus yn gofalu amdanynt.

Mae un peth yn sicr – mae sawl ardal ym mro'r Goriad sydd angen eu sbriwsio. Beth am gysylltu â'ch cynghorwyr lleol ar lefel sir, dinas neu gymuned i dynnu sylw atynt?

## Doethion Bach Bethania

Rhwystrwyd llawer o weithgareddau Nadolig byw gan Covid eto eleni, yn enwedig gyda dyfodiad Omicron, yr amrywiolyn newydd. Ond diolch i dechnoleg cafwyd aml i ddathliad a digwyddiad rhithiol. Un o'r rheini oedd sioe Nadolig plant Capel Bethania, Y Felinheli – hanes ar dudalen 10.




- Cyflwyno 'Gwres o'r Gorllewin' i gynulleidfa newydd – tudalen 7
- Ambell arwydd gobeithiol ar y Stryd Fawr – tudalen 13
- Dewi Llwyd yn *ateb* cwestiynau – tudalen 14

# GORIAD

Papur Bro Bangor a'r Felinheli
MANYLION CYSWLLT

**Golygydd y Mis:** Menna Baines
**Golygydd y rhifyn nesa:** Shoned Wyn Jones

**Y rhifyn nesa:** Deunydd mis Chwefror erbyn dydd Mercher 26ain o Ionawr i: **papurbrogoriad@yahoo.co.uk**

**SWYDDOGION**

**LLYWYDD**
Gari Wyn Jones, Ty'n Llwyn, Pentir, Bangor LL57 4DY
**YSGRIFENNYDD**
Howard Huws, 26 Penyffridd, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2LZ (351503)
**TRYSORYDD**
Elan Parry, 9 Blaen y Wawr, Bangor LL57 4TR (521775)
**HYSBYSEBION**
Linda Jones, 15 Ffordd Belmont, Bangor LL57 2LL (364390)
**DIGWYDDIADUR**
Ann Corkett, 5 Heol Belmont, Bangor LL57 2HS (371987)
**DOSBARTHU**
Gwyn Jones, 28 Trefonwys, Bangor LL57 2HU (353652)
**DOSBARTHU I'R SIOPAU**
Enyd Roberts, 27 Y Rhos, Penrhosgarnedd LL57 2LT (370377)
**DOSBARTHU DRWY'R POST**
William H Owen, 14 Lôn y Meillion, Eithinog, Bangor LL57 2LE (364008)

***Gwahoddir golygyddion y mis, gohebwyr a cholofnwyr i'r papur. Cysylltwch â Menna Baines, Bangor 364522, neu anfon gair ati ar e-bost – mennabaines1@gmail.com***

CYHOEDDIR GORIAD GAN BWYLLGOR GORIAD GYDA CHYDWEITHREDIAD LLU O WIRFODDOLWYR



**Mae'r papur yn cael ei ddosbarthu mewn gwahanol ardaloedd ond gellir cael copïau hefyd yn y siopau canlynol:**
LONDIS Y FELINHELI
POST, PENRHOSGARNEDD
SIOP YSBYTY GWYNEDD
KWIKS, STRYD FAWR, BANGOR
LATE SHOP, BANGOR UCHAF
AWEN MENAI, PORTHAETHWY
SIOP GAREJ BERAN, DEINIOLEN

## HYSBYSEBU YN Y GORIAD

### COSTAU HYSBYSEBU ACHLYSUROL

| | | |
|---|---|---|
| 1/16 tudalen | 36mm x 100mm | £12 |
| 1/8 | 75mm x 100mm | £18 |
| 1/4 | 153mm x 100mm | £36 |
| 1/2 | 153mm x 205 mm | £72 |

### COSTAU HYSBYSEBU AM FLWYDDYN (10 MIS)

| | | |
|---|---|---|
| 1/16 tudalen | 36mm x 100mm | £60 |
| 1/8 | 75mm x 100mm | £108 |
| 1/4 | 153mm x 100mm | £216 |
| 1/2 | 153mm x 205 mm | £420 |

**CYFEIRIAD E-BOST HYSBYSEBION: goriad.hysbys@yahoo.co.uk**


Cysodir Goriad gan: **Deiniol Jones**
01248 354068/07979 577924
gdeiniol@hotmail.com
Argraffu: **Y Lolfa**, Talybont, Aberystwyth SY24 5HE
01970 832304

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru


## Enillwyr Clwb 100 Ionawr

**Y brif wobr o £50 yn mynd i John Wynn Jones, 131 Penchwintan, Bangor.**
Saith gwobr arall o £25 yr un i'r canlynol: Tegwen Alaw Parri, Eirianfa, 158 Ffordd Penrhos, Bangor; Eirlys Edwards, Sŵn-y-Coed, 23 Llandygái, Bangor; Carol Llewelyn, 3 Bodlondeb, Ffordd y Borth, Bangor; Dafydd Wyn Jones, Llys Tegai, 104 Ffordd Penrhos, Bangor; William Lloyd Davies, Llanddwyn, 10 Ffordd Menai, Caernarfon; Elizabeth Ann Corkett, 5 Heol Belmont, Bangor; a Dewi L. Davies, Bedw Arian, 14 Bryn Eithinog, Bangor.
**Mae Elan Parry, y Trysorydd, yn croesawu aelodau newydd i'r Clwb Cant. Cysylltwch â hi ar Bangor 521775**

## Rhoddion i'r Goriad

Diolch yn fawr iawn i Dr Evans a Dr Mortimer, Coed y Maes; Aldwyth ac Aled Pari, Coed y Maes a Dienw am eu rhoddion i'r Goriad.

## Diolch i Gyngor Pentir

Ar ran pwyllgor a darllenwyr y Goriad, dymuna'r Trysorydd ddiolch yn fawr iawn i Gyngor Cymuned Pentir am eu nawdd hynod hael at ein papur bro lleol eto eleni.

## I ddosbarthwyr y Goriad

Erbyn hyn mae banc HSBC Bangor yn gwrthod derbyn arian mân, dim ond arian papur a sieciau. Maent yn fodlon helpu i dalu'r rheini drwy'r peiriannau. Os ydych yn cael trafferth cysylltwch â'n trysorydd, Elan Parry, Bangor 521775.

## I rai sy'n talu drwy'r we

Os ydych yn talu am y Goriad ar y we, os gwelwch yn dda anfonwch neges i ddweud hynny ar e-bost *papurbrogoriad@yahoo.co.uk* gan roi'r enw fydd yn ymddangos ar y cyfri. Gofynnwn i'n hysbysebwyr wneud hyn hefyd. Diolch yn fawr.

## Cyfarchion

Ymddiheuriadau na fedrwn anfon cardiau Nadolig ond rwyf yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn ardal y Goriad
*Mona Chambers, Aberystwyth*

## Anfon lluniau

Pan fyddwch yn anfon lluniau i'r Goriad mae'n rhaid i'r gwreiddiol fod o'r ansawdd gorau posibl. Mwya' ydyn nhw gorau oll. Fel arall mae'n anodd eu cynnwys gan na fyddant yn edrych ar eu gorau. A jpeg bob amser os gwelwch yn dda.

## Ymuno â'n Clwb 100

Cofiwch am Glwb 100 Goriad. Cyfle i ennill os daw eich enw o'r het. **Manylion sut i ymuno drwy gysylltu ag Elan Parry, 9 Blaen y Wawr, Bangor LL57 4TR**

## Galw am wirfoddolwyr banc bwyd

A oes gennych ryw ddwyawr i sbario ar ambell fore Sul? Mae'r tîm bychan sy'n rhedeg cynllun Bwyd i Bawb Bangor yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith o rannu'r bwyd y tu allan i swyddfa Plaid Cymru ar y Stryd Fawr ym Mangor, fel rhan o rota.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch gydag Elin Walker Jones (07808 472204; Cynghorydd.ElinWJones@gwynedd.llyw.cymru) neu Menna Baines (07867 697921; Cynghorydd.MennaBaines@gwynedd.llyw.cymru).

# Cyfarfod Blynyddol y Goriad

Oherwydd tywydd drwg ni chafodd ein cyfarfod blynyddol ei gynnal yn Y Shed yn y Felinheli, 7 Rhagfyr. Ar Zoom y daeth tri ar ddeg at ei gilydd i drafod y flwyddyn a aeth heibio yn hanes Goriad.

Dan gadeiryddiaeth y llywydd, Gari Wyn, clywyd bod gwefan BangorFelin360 wedi ei sefydlu ar Bro360 a bod amryw yn cyfrannu tuag ati o Fangor a'r Felinheli. Nid oedd sicrwydd faint oedd yn ei dilyn bob dydd. Ond nid oes gan Goriad unrhyw ran swyddogol yn ei chynnal.

Diolchodd Gwyn Jones, y swyddog dosbarthu, i Deiniol Tegid am ei ran yn hyrwyddo Goriad yn Ngoetre Uchaf, Penrhosgarnedd. Diolchodd hefyd i Meira Jones a Gwynn Jarvis am eu gwaith yn dosbarthu yn Eithinog a Bangor Uchaf am yr holl flynyddoedd. Mae'r ddau yn cael seibiant haeddiannol. Mae Eithinog yn chwilio am ddosbarthwr parhaol ac mae Meirion Davies wedi cymryd at y gwaith ym Mangor Uchaf.

Eglurodd Gwyn hefyd mai 750 o gopïau o'r Goriad sy'n cael eu hargraffu a bod y rhai sydd dros ben yn cael eu rhannu i gartrefi henoed ac yn y blaen.

Cyfeiriodd Menna Baines at y ffaith fod Alwen Derbyshire wedi ymuno â'r tim golygyddion y mis ac y byddai rhagor yn gwneud yn fuan. Roedd yn obeithiol y byddai deg ar gael eleni, un golygydd bob mis. Diolchodd y cadeirydd i'r golygyddion a'r colofnwyr am eu gwaith ac yn arbennig i Gwilym John, y Felinheli, sydd wedi bod yn ysgrifennu hanes Clwb Pêl-droed y Felin ers dyddiau cynnar Goriad.

Pwnc arall oedd talu am y papur. Gan fod amryw byd yn talu biliau ar y we erbyn hyn roedd Elan Parry, y trysorydd, yn dweud fod hynny'n dderbyniol wrth dalu am y papur am y flwyddyn. Ond roedd teimlad nad oedd rhai yn siŵr a oedd prynwyr wedi talu neu beidio ac roedd angen gwella'r drefn honno. Angen anfon neges e-bost i roi gwybod oedd un syniad.

Cododd Gwyn Jones fater talu yn y banc, yn arbennig i ddosbarthwyr yr ardaloedd sydd am dalu i mewn yn HSBC Bangor. Does dim darpariaeth yno bellach i dderbyn arian mân. Penderfynwyd rhoi pwt yn Goriad yn awgrymu beth ddylid ei wneud.

Diolchodd Elan, y trysorydd, i Aled Pari, Penrhosgarnedd, am archwilio'r llyfrau. Roedd y sefyllfa ariannol yn llewyrchus er bod y costau yn uwch na'r flwyddyn cynt. Gan fod arian wrth gefn bu trafodaeth ar beth y dylid ei wario. Ar gynnig Deiniol Tegid sefydlwyd is-bwyllgor i drafod y mater hwn.

# Astudio gwerth Gardd Fotaneg Treborth

**Mae ymchwilwyr o'r brifysgol yn gweithio gyda Gardd Fotaneg Treborth i weld faint o fudd y mae'r lle yn ei gynnig i staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach.**



*Natalie Chivers (chwith) gyda grŵp o wirfoddolwyr yng Ngardd Fotaneg Treborth*

Mae oddeutu 35,000 yn ymweld â'r Ardd bob blwyddyn, lle cânt fynediad am ddim i 45 erw o goetir a gardd wedi ei thirlunio, ynghyd â saith tŷ gwydr trofannol a thymherus sy'n gartref i dros 3,500 o rywogaethau.

Yng Nghymru gyfan, nid oes ond tair gardd fotaneg. Mae gan Dreborth, yr unig un yng ngogledd Cymru, enw da'n rhyngwladol ac mae'n gartref i gasgliadau cadwraeth pwysig a labordy gwreiddiau tanddaearol mwyaf Ewrop.

Mae'n bosib gwirfoddoli yn yr Ardd a hynny'n rhoi cyfle i staff, myfyrwyr a phobl y cylch ddysgu am blanhigion, meithrin sgiliau garddio a phrofi'r ardd fotaneg trwy'r tymhorau. Mae Cyfeillion Gardd Fotaneg Treborth yn weithgar iawn yn cynorthwyo'r staff ac mae grŵp rheolaidd o wirfoddolwyr ymroddgar yn gofalu am yr ardd bob dydd Mercher a dydd Gwener.

Yn ddiweddar, llwyddodd Natalie Chivers, Curadur Gardd Fotaneg Treborth, i gael cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) i gynnal rhaglen arddio i staff er mwyn cynnig cyfle iddynt dreulio hanner diwrnod y mis yn yr Ardd, yn dysgu sgiliau newydd a chymryd rhan mewn amryw o brosiectau fesul tymor.

Cefnogir yr astudiaeth gan gyrff Cymreig a daw i ben ym Mehefin eleni. Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Cyd-gyfarwyddwr y Ganolfan Economeg Iechyd, sy'n arwain yr astudiaeth, gan gydweithredu â'r Athro John Parkinson, Deon y Coleg Gwyddorau Dynol.


LONDIS
Y FELINHELI

AR AGOR 7 DIWRNOD 8 y.b. - 8 y.n

* Trwydded Diodydd * Nwyddau
* Papurau Newydd * Ffrwythau a Llysiau
* Ticedi Loteri * Trwydded Cerbydau
* Treth Cyngor
* Bancio Banc Lloyds, TSB, Co-op, Girobanc

*Derbynnir*
*Switch - Delta a Solo*
*Ffôn:*
*01248 670201*

SWYDDFA POST OFFICE



**Ms E S Williams BSc (Hons)**
*MCOptom • Prof Cert Glauc*
**Mrs M W Williams BSc (Hons)**
*FBCO*

**Optegwyr Offthalmig**



GOFAL LLYGAD I'R TEULU OLL
310 STRYD FAWR, BANGOR, LL57 1UL Rhif ffôn: 01248 354949

# Cyngerdd Nadolig Encôr

Sefydlwyd côr pedwar llais Encôr ym Mangor dan arweiniad Kiefer Jones yn Rhagfyr 2020 yng nghanol y pandemig. Wedi misoedd o ymarfer yn yr awyr agored rydym bellach yn cael croeso cynnes yng Nghapel Berea Newydd bob nos Fercher. Penllanw ein blwyddyn gyntaf oedd ein Cyngerdd Nadolig a gynhaliwyd yn Eglwys ein Harglwyddes a St Iago, Bangor, nos Wener 10 Rhagfyr, 2021. Diolch i'r eglwys am y croeso a'u parodrwydd i gefnogi cynnal digwyddiad yn ddiogel.

Mae holl elw'r noson yn cael ei rannu rhwng dwy elusen, Gafael Llaw ac Ambiwlans Awyr Cymru. Rydym yn dal i gyfri ond hyd yma rydym wedi casglu yn agos iawn at £1,000 – diolch i bawb a gefnogodd. Buom hefyd yn lwcus iawn fod Santander wedi cynnig ariannu cyfatebol; ac rydym yn ddiolchgar i'r staff o'r banc a fu'n gwirfoddoli wrth y drws ar y noson gan sicrhau fod pawb yn cadw'n saff.

Yn y cyngerdd cafodd Encôr cyfle i ganu eu holl repertoire, o ganeuon hwyliog, sy'n codi'r ysbryd ac yn creu rhyw ymdeimlad o haf-o-hyd, fel 'Bohemian Rhapsody', 'Hit the Road Jack' a 'Harbwr Diogel', i ganeuon Nadoligaidd fel 'O Ddwyfol Nos' a 'Last Christmas'. A braf oedd cael croesawu artistiaid eraill i'n plith. Cafwyd perfformiadau gwych gan blant Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor, a phlant a phobl ifanc Maes-G ShowZone, clwb celfyddydau perfformio ieuenctid cymunedol a sefydlwyd yn 2020 gan wirfoddolwyr. Cawsom wledd o fyd y sioeau cerdd gan fyfyrwyr cwrs lefel 4 Celfyddydau Perfformio Coleg Menai a pherfformiad unigol arbennig gan Dion Roberts a Sean Currie o Goleg Menai a Koby Springsteen, myfyriwr o Brifysgol Bangor. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Guto Evans am ei holl waith gyda'r system sain ac i Carolyn Hockedy, aelod o Encôr a fu'n brysur yn gwneud dros hanner cant o sgarffiau arian bendigedig ar gyfer y côr.

Mae Encôr yn mynd o nerth i nerth ac yn hapus iawn i gefnogi gweithgareddau lleol pan fydd cyfyngiadau Covid yn caniatáu. Cysylltwch os ydych am drefnu rhywbeth, neu os ydych am ymuno yn hwyl yr ymarferion mae croeso cynnes: *encor.wyn@gmail.com*



*Côr Encôr dan arweiniad Kiefer Jones*



*Maes-G Showzone*

## PENRHOSGARNEDD

**MARW COGYDDES** Bydd rhai o gylch Penrhosgarnedd yn cofio Idanwen Moore a fu farw'r mis diwethaf. Bu'n gweithio yn y gegin yn Ysgol St Paul, lle'r oedd ei mam yn brif gogyddes, cyn ymuno â staff cegin Ysgol y Garnedd. Roedd yn byw ym Mhen-y-ffridd cyn iddi symud i fynglos Bryn Llwyd, Coed Mawr. Bu farw ei merch Audrey a'i gŵr Tommy rai blynyddoedd yn ôl. Cynhaliwyd ei hangladd yn yr Amlosgfa, 24 Rhagfyr. Derbynnir rhoddion er cof amdani tuag at MIND a ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd.

**CYDYMDEIMLAD** Ddiwedd Hydref bu farw Rosalie (Rosie) Jones o Ffordd Cynan, gweddw Wil (Capten), gynt o'r Felinheli, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwn â'i brawd Peter Devereux, a'i dwy chwaer Liz a Joy a'i chwaer yng nghyfraith Mair o Gaerdydd. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Eglwys Gadeiriol ddydd Llun, 8 Tachwedd. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Sant Pedr, Penrhos, tan i'r eglwys honno gau.

Cafodd ei geni yn 1939 ac roedd yn cael trafferth bwyta a'r unig beth oedd hi'n gallu ei fwyta oedd bananas. Roedd y rheini'n brin iawn adeg y rhyfel a bu'r gymuned yn eithriadol o dda yn rhoi bananas i'w theulu ac fe'i gelwid 'The Banana Baby'.



Rosalie Jones

1939 - 2021

Bu Rosie yn gweithio yng nghyfnewidfa BT ym Mangor lle bu'n oruchwyliwr am flynyddoedd maith, swydd a olygai ei bod yn gyfarwydd i gannoedd o bobl yr ardal.

Derbyniai'r Goriad bob mis ac roedd wrth ei bodd yn trafod y newyddion ynddo. Roedd yn dipyn o gymeriad ac yn hoff iawn o ddillad, a thra addas oedd y gân olaf yn y gwasanaeth yn yr Eglwys Gadeiriol, 'Big Spender'.

Roedd yn hynod garedig hefo'r wyrion a'r gor-wyrion. Gwneir casgliad er cof amdani i'w roi i Ward Padarn, Ysbyty Eryri. Diolch i Gwmni H. O. Davies am y trefniadau trylwyr ar gyfer yr angladd.

**MERCHED Y WAWR PENRHOSGARNEDD** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein llywydd, Nia Humphreys. Gorchwyl drist oedd ganddi i ddechrau, sef cyfeirio at farwolaeth Sylwen Lloyd Davies, un o sylfaenwyr y Mudiad, cyn-Lywydd Cenedlaethol a Llywydd Anrhydeddus, ac fel mae'n digwydd un oedd yn ffrindiau bore oes â mam Nia, sef Carys.

Bethan Gwanas oedd ein gwestai drwy gyfrwng y cyfrwng y tro hwn. Sgwrs a roddodd hi i ranbarth y De-ddwyrain ar Zoom ac a rannwyd yn ganolog wedyn. Ond roeddem yn teimlo ei bod hi gyda ni er nad oedd yn noson fyw. Yn wir, roedd yr ambell "sai'n gallu clywed chi" gan ryw aelod o'r De-ddwyrain bob hyn a hyn yn gysur – mae Zoom yn gallu gadael pawb i lawr weithie!

Mae Bethan yn awdures doreithiog ond canolbwyntiodd ar ddwy nofel ar y noson, sef *Gwrach y Gwyllt* a *Merch y Gwyllt.* Yn amlwg dilyniant yw'r ail nofel ond dilyniant a gymerodd 17 mlynedd cyn ei gyhoeddi. Darluniodd Bethan gefndir daearyddol y nofelau i ni; yn y coed uwchben Dolgellau y lleolwyd y nofel gyntaf ac roedd yn tynnu ar hanesion am wrachod ar lawr gwlad. Yna mynd i Iwerddon i ymchwilio a chynllunio'r ail nofel. Roedd hi'n ddiddorol clywed beth a ysbrydolodd Bethan i ysgrifennu'r nofelau, ac am yr adwaith a gawson nhw. Yn sicr, roedd y ddwy nofel yn boblogaidd iawn ond nid felly gan y beirniaid bob amser. Rhaid oedd edmygu Bethan am fod mor onest ynglŷn â hyn, dangosodd sawl adolygiad digon di-flewyn-ar-dafod i ni.

Roedd hi'n noson hwyliog a chafwyd trafodaeth wedyn am lyfrau eraill; mae cynifer o nofelau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi y dyddiau hyn, rhaid i ni i gyd fynd i'r llyfrgelloedd a'r siopau lleol.

Ac felly daeth cyfarfodydd 2021 i ben, heb ginio Dolig, na limrig na phaned, ond pawb yn gwmni llon yn barod am y flwyddyn sydd o'n blaenau.

# Am agor yn yr haf



Synnu mae pawb sy'n mynd ar hyd Ffordd Caernarfon mor sydyn y mae adeilad newydd Aldi yn codi. Fan hyn yr oedd canolfan John Edwards ers talwm a Blakemore ar ôl hynny. Er mor addawol yw'r gwaith fydd y siop ddim yn agor tan yr haf, meddai llefarydd ar ran y cwmni. Bydd gwaith i ddeg ychwanegol yno pan fydd eu hadeilad yng nghanol Bangor yn cau.

# Y Nyth yn tyfu



Mae'r gwaith ar 'Nyth' y Frân Wen yn Eglwys y Santes Fair, Hirael, yn dod yn ei flaen. Gobaith y cwmni theatr, sydd ar hyn o bryd wedi'i leoli ym Mhorthaethwy, yw cwblhau'r gwaith o drawsnewid yr hen eglwys yn ganolfan gelfyddydol, ddiwylliannol a chymunedol i bobol ifanc cyn diwedd y flwyddyn.


Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd

CYFREITHWYR

123 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd 01248 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

*Swyddfeydd eraill:*

LLANGEFNI 01248 723106 • AMLWCH 01407 831777
BENLLECH 01248 852782 • CAERNARFON 01286 673616
PWLLHELI 01758 703000

Triniaeth cur pen, poen yn y gwddf neu'r cefn: ymwelwch â:

Clinig Ceiropracteg

Ceiropractydd: Mr Stephen Mack-Smith B.Sc., D.C.

*Aelod o Gymdeithas Ceiropracteg Prydain*

10 Ffordd Ainion, Bangor, LL57 2YD
Ffôn: 370242
www.clinigceiropracteg.cymru

# Gweithio gyda phlant bach er budd yr iaith Gymraeg

**A fyddech chi'n mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i blant bach eich cymuned leol gan gadw'r iaith yn fyw yn eich ardal? Mae 'na lawer o gyfleoedd ar gael i drio am swyddi yn eich Cylchoedd Meithrin lleol.**

**Mae gweithio mewn Cylch Meithrin gyda phlant 2–5 oed yn gallu rhoi boddhad mawr i chi wrth weld y plant yn siarad Cymraeg am y tro cyntaf a rhoi hyder i'w rhieni i'w gyrru ymlaen i Addysg Gymraeg. Gallwn hefyd eich cefnogi i gael hyder i ailgydio yn y Gymraeg os nad ydych wedi cael cyfle i'w defnyddio yn aml ers i chi adael yr ysgol.**

**Trwy weithio mewn Cylch Meithrin byddwch yn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

**Os hoffech ystyried newid swydd, yna mae gennym gynlluniau hyfforddi amrywiol i'ch helpu i ennill cymhwyster addas tra byddwch yn gweithio.**

**I glywed mwy am ein holl swyddi, ewch i'n gwefan – *www.meithrin.cymru/swyddi***

**Am sgwrs bellach mae croeso i chi gysylltu gyda Leanne Marsh drwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio *leanne.marsh@meithrin.cymru***


## Eisiau gweithio gyda phlant bach?




**Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.**

**Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!**

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

**www.meithrin.cymru/swyddi**

Angen cymhwyster gofal plant?
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

**www.meithrin.cymru/prentisiaeth**

Am sgwrs bellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru
neu ffoniwch 01970 639639


# YN Y GEGIN

*gyda RUTH OWEN*

**Tasg anodd ydi meddwl ddiwedd Rhagfyr, yng nghanol danteithion y Nadolig, beth fydd gan ddarllenwyr y Goriad awydd ei fwyta ganol Ionawr. Alla i 'mond rhannu efo chi bryd syml a sydyn sy bob amser yn llonni fy nghalon. Allwch chi wneud cawl o unrhyw gyfuniad o lysiau wrth gwrs ond mae yna rai sy'n gweithio'n well na'i gilydd. Mae cawl i mi yn bryd sy'n hanfodol i'r corff a'r enaid yn nyddiau tywyll y gaeaf.**

**CAWL LLYSIAU A LENTILS OREN**

Felly dyma ni. 'Cawl oren' ydi o i mi er nad oes yna oren fel y cyfryw yn agos ato. Fydda i byth yn mesur y cynhwysion; does dim angen gyda chawl fel hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod eich cawl fymryn yn wahanol bob tro, a da o beth ydi hynny.

Dyma'r hanfodion:
taten felys, moronen neu ddwy, nionyn, lentils oren a chwibiau pwmpen (dwi'n prynu'r rhain wedi eu rhewi – cymaint haws na phaffio efo llysieuyn mor ofnadwy o anodd ei drin).

DULL

- Torrwch y llysiau yn ddarnau, i gyd tua'r un maint, a'u gosod mewn sosban.
- Ychwanegwch lond cwpan o lentils oren.
- A rŵan y 'game changer'. Piliwch ddarn tua maint eich bawd o sunsur ffres, a hynny'n denau. Torrwch yn ddarnau, heb fod yn rhy fân, a'u rhoi gyda'r llysiau. Ewin neu ddwy o arlleg hefyd os dymunwch.
- Ychwanegwch lond llwy fwrdd dda o bowdr Marigold Bouillon a gorchuddio'r cwbl gyda digon o ddŵr poeth o'r tegell.
- Coginiwch am tua ugain munud gan roi mwy o ddŵr os bydd yn edrych yn rhy drwchus. Dylai'r llysiau a'r lentils fod yn feddal.
- Defnyddiwch ffon 'blender' yn y sosban gan roi mwy o ddŵr eto os teimlwch fod angen.
- Blaswch rŵan. Bydd angen pupur a 'falle halen at eich blas.
- Bydd y cawl yn sidanaidd a llyfn a'r lliw yn ogoneddus – iachus a chynhesol fel haul mewn powlen. Rhowch dwb ohono yn y rhewgell at eto. Gallwch weini'r cawl gyda sgon gaws neu fara da.






**H. O. DAVIES Cyf.**
*Trefnwyr Angladdau*
4 STRYD FAWR, BANGOR
Capel Preifat
Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: 362650
362218

**SEIRI MAEN**
Penrhyn Monumental Works
Arddangosle yn
4 STRYD FAWR, BANGOR




# Nofel hanesyddol boblogaidd ar newydd wedd





**Mae nofel hanesyddol Gymraeg gan awdur o Fangor wedi ymddangos mewn argraffiad newydd ochr yn ochr â chyfieithiad Saesneg.**

Nofel am yr arweinydd canoloesol Gruffudd ap Cynan a'i ymdrechion arwrol i wireddu ei freuddwyd o adennill Gwynedd, teyrnas ei dad, ar ôl cael ei fagu'n alltud yn Iwerddon, yw *Gwres o'r Gorllewin.* Mae'n dilyn ei hynt a'i helynt wrth iddo wynebu sawl her, gan gynnwys ei garchariad hir yng nghastell Caer ar ôl cael ei gipio gan y Normaniaid mileinig. Daeth yr argraffiad newydd, ynghyd â'r cyfieithiad, *Western Wildfire*, o'r wasg ym mis Tachwedd, hanner can mlynedd wedi i'r nofel gipio'r Fedal Ryddiaith i Ifor Wyn Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor, 1971.

Un o Hirael oedd Ifor, wedi'i fagu yno gan ei nain a'i fodryb, chwaer ei dad, yr edrychai arni fel mam. O Ysgol Friars aeth i'r Coleg Normal a threuliodd ei yrfa yn y byd addysg. Dysgu mewn ysgol yn Nuneaton oedd ei swydd gyntaf a bu'n dysgu yn Ysgol y Garth, Bangor, cyn cael ei benodi'n brifathro yng Nghonwy. Yno yr oedd pan enillodd y Fedal Ryddiaith, cyn symud i Ysgol Llanfairpwll. Agorodd y fuddugoliaeth Eisteddfodol sawl drws iddo fel awdur ac wedi ymddeol bu'n gwneud gwaith ysgrifennu a sgriptio gan lunio nifer o ddramâu a chyfresi ar gyfer radio a theledu. Ysgrifennodd 14 o nofelau i gyd.

Bu farw Ifor yn 1999 a'i gymar, Anne Roberts, sy'n byw yn Nhrefonwys, a'i mab Owen Wyn, a ysgogodd y cyfieithiad o'i nofel enwocaf.

"Pan oedd Ifor yn fyw, roedd o wedi sôn droeon y byddai'n hoffi cyfieithu *Gwres i'r Gorllewin* i'r Saesneg," meddai Anne wrth y Goriad. "Ac roedd o wedi sôn hefyd ei fod am ysgrifennu nofel arall yn ddilyniant iddi, ond roedd o'n brysur a ddaru o ddim llwyddo i wireddu'r un o'r ddau fwriad. Ond roedd fy mab Owen wrth ei fodd efo'r nofel ac mi fyddai'n siarad lot amdani efo Ifor ac mi fuon nhw'n trafod y syniad o'i chyfieithu. A dyna be wnaeth inni feddwl, yn y blynyddoedd diweddar, y byddai'n dda mynd ati i wireddu'r syniad er mwyn dwyn y nofel i sylw cynulleidfa ehangach."


*Llun o Gasgliad Geoff Charles, Llyfrgell Genedlaethol Cymru*


Aeth Anne ati i drefnu addasiad Saesneg gan nofelydd hanesyddol arall, sef Haf Llewelyn, a oedd yn digwydd bod yn un o fyfyrwyr Ifor pan oedd yn dysgu yn y Coleg Normal. Llwyddodd Myrddin ap Dafydd o Wasg Carreg Gwalch i gael grant i gyhoeddi'r cyfieithiad ac ef hefyd a awgrymodd y byddai'n syniad cael argraffiad Cymraeg newydd yn ogystal er mwyn dwyn stori gyffrous Gruffudd ap Cynan i sylw cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr. Mae gan y nofel ar ei newydd wedd glawr trawiadol ac mae map y tu mewn yn dangos lleoliadau allweddol yng Nghymru a Dwyrain Iwerddon y cyfnod.

Un o'r beirniaid pan enillodd y nofel y Fedal Ryddiaith oedd Islwyn Ffowc Elis ac roedd wedi'i swyno ganddi. Disgrifiodd hi fel "nofel...arbennig iawn" gan ddweud amdani: "y teimlad a geir yw fod yr awdur wedi 'byw' carchariad maith ac arteithiol Gruffudd gydag ef... Mae'r gymeriadaeth a'r myfyrio'n gampus, a'r portread o Gruffudd yn orchestwaith."

Mae'r argraffiad newydd wedi'i anelu at oedolion iau, ond yn sicr bydd y nofel afaelgar hon yn apelio ar ddarllenwyr hŷn hefyd.

Cyhoeddir *Gwres o'r Gorllewin* a *Western Wildfire* gan Wasg Carreg Gwalch.

HYWEL
WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON



01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk

SIÂN
GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
sian.gwenllian@senedd.cymru

**Oes gan ddarllenwyr y Goriad lestri capel tebyg i'r plât yma? Ar un adeg roedd gan bob capel ei lestri, rhai'n fwy addurniadol na'i gilydd, ac o wahanol safon. Gyrrwch luniau ac unhryw hanes sydd i'r llestri i'w rhannu gyda'n darllenwyr.**



# YSGOL FRIARS

**EISTEDDFOD YSGOL** Yn anffodus, rydym wedi penderfynu gohirio'r Eisteddfod Ysgol eleni ond yn gobeithio ei chynnal ar gaeau'r ysgol pan fydd hi'n brafio. Serch hynny, rydym wedi bwrw ymlaen gyda'r cystadlaethau oddi ar y llwyfan yn ôl yr arfer. Canlyniadau ac ychydig o luniau i'w rhannu yn y flwyddyn newydd.
**DYDD SIWMPERI NADOLIG** Braf iawn oedd gweld y disgyblion a'r staff yn dod i'r ysgol yn eu siwmperi Nadoligaidd. Casglwyd dros £300 ar gyfer yr elusennau Save the Children & Mind. Diolch yn fawr i bawb am gyfrannu.
**SGIPATHON** Trefnodd yr Adran Addysg Gorfforol 'sgipathon' ar gyfer holl ddisgyblion CA3 yn ystod eu gwersi Addysg Gorfforol. Roedd yr adran yn annog y disgyblion i gadw'n heini ac yn iach drwy sgipio i gyfeiliant caneuon Nadoligaidd. Roedd rhai wrth eu boddau yn gwisgo i fyny ar gyfer yr achlysur.





**PÊL-DROED** Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed genethod Blwyddyn 7 & 8 am ennill 6–3 yn erbyn Ysgol Tryfan. Roedd Ffion Clement yn gapten ardderchog ac yn arweinydd cryf i'r tîm. Da iawn chi.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl-droed bechgyn Blwyddyn 8 sydd wedi curo John Bright yng Nghystadleuaeth Cwpan Cymru o 2–1 i gyrraedd rownd yr 16 olaf. Goliau gan Elliott Shears a Josh Roberts. Chwaraewr y gêm oedd Sam Hardy. Da iawn hogia a phob lwc i chi yn y rownd nesaf.
**LLWYDDIANT HWYLIO** Llongyfarchiadau i Nathan Williams o Flwyddyn 11 am ddod yn gyntaf yn ei adran hwylio ym Mhencampwriaeth Cymru. Da iawn ti Nathan a phob llwyddiant i ti yn y dyfodol.
**TAITH MEDDYLGARWCH A LLES** Bu i rai o ddisgyblion Blwyddyn 7–11 gymryd rhan mewn taith gerdded oedd yn canolbwyntio ar feddylgarwch a lles yng ngwarchodfa natur Eithinog mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a GAA Gwynedd. Roedd y disgyblion wedi elwa o gael bod allan yng nghanol byd natur.








SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

DIONI™

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

# Y GARTH



**DIOLCH, DIOLCH YW EIN RHAN** Fydd bore Sul ddim yr un peth heb gwmni difyr Dewi Llwyd a'i westeion ar Radio Cymru. Ar ôl 14 mlynedd mae cyfnod Dewi Llwyd a Marian Ifans, y ddau o'r Garth, wedi dod i ben fel cyflwynydd a chynhyrchydd rhaglen *Dewi Llwyd ar fore Sul*. Dros y cyfnod hwnnw mae Dewi, gyda'i westeion, wedi rhoi cig a gwaed ar benawdau'r papurau Sul ac wedi cyfweld gwleidyddion a sylwebyddion o bob lliw a llun, a gwneud hynny yn heriol ond gydag urddas a chwrteisi bob tro. Mawr yw ein diolch a'n hedmygedd. Uchod dyma Dewi a Marian ym Mryn Meirion yn recordio'r rhaglen olaf gafodd ei darlledu fore Sul, 26 Rhagfyr. Ond da deall y bydd Dewi'n dal i gyflwyno *Dros Ginio* ddwywaith yr wythnos a *Hawl i Holi* pan fydd honno'n cael ei darlledu. (Gw. hefyd dud. 14, lle mae Dewi'n ateb ein holiadur.)

**'DOLIG GWENNO** Yn ystod yr wythnos yn arwain at y Nadolig mwynhawyd llawer o raglenni cerddorol i ddathlu'r ŵyl gan gynnwys sesiynau gan Gwenno Morgan, Siliwen, ar Radio Cymru fel rhan o raglen Georgia Ruth. Cafwyd y pleser o glywed dehongliad Gwenno ar y piano o gân boblogaidd Delwyn Siôn, 'Un Seren', un o'i ganeuon Nadoligaidd. Ysbrydolwyd Gwenno i gyfansoddi'r ail ddarn, 'Eira Mân', ar ôl darllen *Eira Mân, Eira Mawr,* llyfr arswyd Gareth F. Williams. Mae modd gwrando'n ôl ar raglen Georgia Ruth ar BBC Sounds a gellir gwrando ar gân 'Un Seren' ar Soundcloud. Llongyfarchiadau Gwenno.

**CYNGERDD AELWYD JMJ** Mae llawer o elusennau wedi dioddef yn ariannol yn ystod y pandemig a hynny'n effeithio ar eu gallu i wireddu eu hamcanion. Er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen DPJ, cynhaliwyd cyngerdd Nadolig yn y Gadeirlan gan aelodau Aelwyd JMJ a chalondid mawr oedd gweld cynulleidfa gref yn mwynhau eitemau gan gorau'r Aelwyd yn ogystal ag eitemau unigol. Sefydlwyd elusen DPJ yn Sir Benfro yn 2016 yn dilyn marwolaeth Daniel Picton Jones mewn amgylchiadau trist iawn. Sefydliad iechyd meddwl yw DPJ sy'n cynnig cefnogaeth a chymorth yn y sector amaeth. Mae'r elusen hefyd yn agos iawn at galonnau nifer o fyfyrwyr JMJ ac aelodau'r côr. Diolch i Aelwyd JMJ am noson hyfryd, lawn naws y Nadolig, ac am godi ein hymwybyddiaeth o waith yr elusen bwysig hon.



**MADARCH GAEAF** Ydych chi wedi sylwi ar y nifer o wahanol fadarch lliwgar sydd wedi dod i'r golwg eleni ar lawntydd, mewn gwrychoedd a choedwigoedd? Mae'n debyg mai'r tywydd cynnes a digonedd o law ydi'r prif resymau eu bod mor niferus eleni. Anodd cofio pryd ddiwethaf y gwelwyd madarch yn yr ardd ganol Rhagfyr. Os gwir y gair, mae madarch yn arwydd fod pridd yr ardd yn iach.

## Pos@GarethFfowc



### POS CAMEL A MUL

Ar eu taith i Fethlehem mae'r tri brenin yn galw heibio marchnad leol. Yno mae Balthasar yn prynu tri chamel a phum mul. Mae Melchior yn prynu pum camel a thri mul ac yn gwario deg darn arian yn fwy na Balthasar. Faint yn ddrutach yw camel na mul?

Ateb ar dudalen 19






**GORIAD**

Deunydd Chwefror erbyn dydd Mercher 26ain o Ionawr i: **papurbrogoriad @yahoo.co.uk**




# Y FELINHELI

**BLWYDDYN NEWYDD DDA!** Pob dymuniad da i'n darllenwyr a holl drigolion Felin, gan obeithio y bydd 2022 yn llawer gwell na'r ddwy flynedd flaenorol i bawb.

**GENEDIGAETHAU** Llongyfarchiadau mawr i Casi ac Aled Roberts, 4 Tŷ'n Lôn, ar enedigaeth eu mab, Twm Alun, a brawd bach i Erin a Now.

Hefyd, dymuniadau gorau i Kristina Banholzer a Gwion Tegid, Rhes Gwelfor, ar enedigaeth Nico. Fydd Greta wedi gwirioni efo'i brawd bach.




**TLWS I DYLAN** Llongyfarchiadau i Dylan Huws, Y Bwthyn, ar dderbyn tlws gan Prostate Cymru, fel cydnabyddiaeth o'i ymdrechion yn codi arian ar gyfer yr elusen. Bu Dylan yn cystadlu yn Ras Ultra Pen Llŷn llynedd. Mae'n mwynhau rhedeg ar fynyddoedd Eryri ac fe ymunodd â ras heriol yn yr Alpau yn ystod haf 2021.

**SIOE 'DOLIG BETHANIA** Bu'n rhaid canslo Carolau Gŵyl ac ni fu Sioe 'Dolig fyw ym Methania eleni chwaith. Yn hytrach, gwnaethpwyd fideos gan y gwahanol deuluoedd ar gyfer creu ffilm fer. Cafwyd cyfraniad gan blant o dair i bymtheg mlwydd oed ac roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan. Yn y fersiwn yma, roedd Nel o dan bwysau mawr i gynnal Nadolig perffaith i'r teulu – nes clywed gan angel bod un neu ddwy o broblemau wedi codi adeg y Nadolig Cyntaf (ond heb eu cynnwys yn yr Efengyl!). Roedd Mair yn gobeithio cael gorffwys ar ôl geni'r Baban Iesu – ond aeth Joseff i gysgu'n sownd! Y doethion mewn penbleth – a ddylent ymweld â Herod, y brenin cas? A Gabriel yn dod o hyd i'r bugeiliaid anghywir ym Methel! Diolch o galon i'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran ac yn arbennig i'r rhieni am eu hyfforddi a'u ffilmio. Diolch hefyd i Rhodri am olygu a chreu'r fideo.






**GŴYL Y FELIN** Yn sgil canslo Nadolig y Felinheli, fe roddodd Pwyllgor yr Ŵyl focsys siocled i ddisgyblion Ysgol y Felinheli a'r Cylch Meithrin. Dyna hael! Roedd y plant wedi gwirioni!

**CAU'R GIATIAU** Ar 7 Rhagfyr, bu wardeniaid y Cynllun Gwarchod rhag Llifogydd yn cau'r giatiau am y tro cyntaf mewn paratoad ar gyfer Storm Barra. Yn ffodus, ni fu eu hangen ond diolch yn fawr i'r rhai sydd wedi gwirfoddoli i fod yn wardeniaid i amddiffyn ein pentref.



## Grantiau Cymunedol y Felinheli

**Mae hi'r amser yna o'r flwyddyn unwaith eto. Mae Cyngor Cymuned y Felinheli yn anelu i weithredu system cymorth grantiau bychain pob blwyddyn. Mae ceisiadau gan fudiadau y pentref angen bod yn nwylo'r Clerc erbyn diwrnod olaf mis Ionawr.**

**Mae amcanion y system fel a ganlyn:**
- **Helpu grwpiau gwirfoddol y gymuned i gynyddu eu heffeithiolrwydd**
- **Helpu sicrhau darpariaeth sydd ei hangen ar y trigolion gan y sector wirfoddol**
- **Cefnogi sefydliadau sydd angen ateb anghenion pobl sydd yn wynebu trafferthion cymdeithasol ac economaidd**
- **Sicrhau cyfartaledd o ran hygyrchedd a chyfleoedd i bawb o ran y gwasanaethau ac arian sy'n cael ei ddarparu.**

**Mae'r Cyngor yn rhoi gwerth ar amrywiaeth a chryfderau'r sector wirfoddol leol ac yn cydnabod eu rôl annibynnol yn y gymuned fel:**
- **Darparwyr gwasanaethau gwerthfawr**
- **Modd i alluogi pobl i weithio gyda'i gilydd**
- **Cyfrwng ar gyfer ymgyrchu ac eiriolaeth**
  **Diffinir 'grŵp gwirfoddol' fel sefydliad 'dim am elw' sydd wedi'i sefydlu ac yn cael ei redeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol.**

**Mae modd cael mwy o wybodaeth (gan gynnwys y canllawiau penodol y mae disgwyl i grwpiau gwirfoddol sy'n derbyn cymorth grant gan y Cyngor eu dilyn) a ffurflen gais ar gwefan y Cyngor *https://www.felinheli.org/grant-gwybodaeth.html* neu drwy gysylltu â chlerc y Cyngor.**
**Clerc Cyngor Cymuned y Felinheli**
**3 Maes Padarn**
**Llanberis LL55 4TE**

## EGLWYS EMAUS

**SIÔN CORN YN CADW AT EI ADDEWID** Caewyd Lôn Cariadon ddiwrnod cyn i Siôn Corn ddod i Emaus! Trwy drugaredd llwyddodd i oresgyn y broblem a chyrhaeddodd y capel mewn pryd. Diolch yn fawr, Siôn Corn!



*Dau o'r plant, Cadi a Ffion, wedi cyrraedd Emaus yn gynnar i groesawu Siôn Corn*



*Lôn Cariadon ar gau*

AWYDD PRYNU CLWB PÊL-DROED? t.19

J. P. TURNER
Cyfarwyddwr Angladdau
GWASANAETH 24 AWR
BRYN HYFRYD, PENTIR, BANGOR
Ffôn 01248 352017 a 354959

BANGOR TYRE SERVICE
FFORDD CAERNARFON, BANGOR
Ffôn: BANGOR 01248 361294
AGORED 7 DIWRNOD
Llun i Gwener: 8am - 6pm
Sadwrn: 8am - 5pm - Sul: 9am - 2pm
*MOT * Teiars * Batris * Trwsio pynjars*
*Balansio olwynion yn gyfrifiadurol * Gosod am ddim*
*Newid oel a ffiltar * Barrau towio i'w gwerthu a'u gosod*



## Mari Emlyn

# Y Beatles yn dal i ysbrydoli

Yr adeg orau o'r Dolig a'r Flwyddyn newydd i mi ydi'r cyfnod rhwng y ddwy ŵyl. Dyma gyfnod pan nad oes gen i syniad pa ddiwrnod ydi hi. Mae rhywbeth yn reit braf am hynny, tan i mi sylweddoli mai heddiw ydi diwrnod cyflwyno fy ngholofn i olygydd y Goriad! O diar! Am be wna i sgwennu'r tro 'ma a hithau'n wyliau?

Dyma'r dyddiau diog. Dyddiau o bori drwy'r llwyth llyfrau ges i gan Siôn Corn; o fynd am dro os ydi'r tywydd yn caniatáu; o weld ffrindiau os ydi Covid yn caniatáu; o binjo ar gyfresi teledu ac o fwyta sothach. Un o bleserau mawr Dolig 2021 fu gwylio *Get Back*: cyfres ddogfennol am y Beatles yn creu'r albwm *Let It Be*.

Profiad syfrdanol oedd eu gwylio wrth eu gwaith. A gwaith oedd o. Gwaith caled. Ceir tystiolaeth o fewn y chwe awr a mwy o ffilm pa mor drybeilig o anodd a blinedig ydi'r broses greadigol. Dydi creu caneuon da arhosol (yn enwedig wrth gyfansoddi ar y cyd) ddim yn digwydd dros nos. Mae angen egni a dyfalbarhad anhygoel hyd yn oed gan bobl o ddoniau dihafal y Fab 4. Cawn weld yr ing a'r tensiwn rhwng aelodau'r grŵp wrth iddyn nhw ymateb i'r pwysau enfawr o gyfansoddi a pharatoi caneuon i'w perfformio'n fyw a hynny o fewn 21 diwrnod. Dyma ganeuon 'dan ni'n hen gyfarwydd â nhw ond yn cael eu clywed y tro hwn wrth iddyn nhw gael eu cyfansoddi!


Un o ragoriaethau'r gyfres ydi nad oes troslais o gwbl i'r hyn 'dan ni'n ei wylio. Gadewir i'r gwyliwr ddod i'w gasgliad ei hun am y Beatles. A'r casgliad ddes i iddo fo oedd bod y pedwar mewn gwirionedd fel teulu. Roedd yna lawer o gariad a llawer o rwystredigaeth rhyngddyn nhw. Dotiais at athrylith a gonestrwydd y pedwar ond hefyd at weledigaeth McCartney, at hiwmor a dwyster Lennon, at amynedd Ringo ac at wyleidd-dra'r hyfryd George. Fedra i ddim egluro'r peth, ond roedd yna gyfnodau yn ystod y gwylio lle'r oeddwn i'n canfod fy hun yn llawn emosiwn a hynny'n aml pan fyddai un neu ddau neu dri ohonyn nhw'n gwenu ar ei gilydd. Roedd cyfrolau o brofiad a pharch ac ella hiraeth am y degawd blaenorol yn eu gwên.

Drwy gydol y ffilm ddadlennol hon, mae rhywun yn ymwybodol bod aelodau'r grŵp yn ymwybodol eu bod nhw'n cael eu ffilmio. Mae'r camera'n bresennol iawn drwy'r cyfan. Ond mae yna un rhan, heb gamera, lle mae 'na feicroffon wedi ei guddio mewn potyn blodau wrth i McCartney a Lennon drafod ymadawiad Harrison y diwrnod cynt. Mae'r ddeialog yn well nag unrhyw sgript o ddrama wrth i Lennon ddweud am Harrison a'r driniaeth eithaf dilornus a gafodd yn yr ystafell ymarfer: "It's a festering wound and yesterday we allowed it to go deeper, and we didn't even give him any bandages." Dyna i chi ddeud. Dyna i chi gonsyrn.

Y broses greadigol yn ei holl densiynau a'i rhyddid; ei holl boen a'i orfoledd, ynghyd â'r cariad amlwg oedd rhwng y pedwar – dyna wnaeth fy nharo i wrth wylio'r gyfres ryfeddol hon. Ac mae'r cyfan, yn union fel eu caneuon, wedi aros efo fi. A dyna fi wedi llunio colofn flêr, bron heb yn wybod i mi, wrth fyfyrio ar bedwar dyn ifanc o Lerpwl a ysbrydolodd y byd, ac sy'n dal i wneud dros hanner canrif yn ddiweddarach.

# 2022 Tudalen y Plant

Blwyddyn Newydd Dda. Oes gennych chi hoff awdur? Tybed faint ohonoch sy'n hoff o ddianc i fyd arall drwy gyfrwng llyfr? Mae'r cliwiau isod yn eich arwain tuag at ddeuddeg o awduron amlycaf Cymru. Holwch eraill ac ymchwiliwch ar y rhyngrwyd i ddarganfod yr atebion. Beth am fynd ati i ddarllen gwaith rhai o'r awduron?




**Ar draws**

**3.** Un o'r enwocaf. 'Tân ar y Comin'
**8.** Arlunydd yw ei brif grefft, awdur 'Dianc'
**10.** Bargen Siôn yn un o nifer helaeth o'i llyfrau
**11.** Mam Bili Boncyrs!
**12.** Ysgrifennodd am helyntion pum ffrind o'r enw Llinos, Einion, Wyn, Orig a Delyth

**I Lawr**

**1.** Pwy ysgrifennodd 'Bwli a Bradwr'?
**2.** Hoff iawn o 'Bobol Drws Nesaf'
**4.** 'Y Wariar Bach' yn dilyn 'Y Goeden Ioga'
**5.** Un o awduron amlycaf Cymru a ysgrifennodd 'Yr CMM'
**6.** Awdur 'Cadi a'r Gwrachod'
**7.** Awdur 'Dy Wallt Yw Dy Goron'
**9.** Mae Sara Mai yn hoff iawn o anifeiliaid

Posau i'ch drysu!

Aeth taid, dau dad a dau fab i'r theatr gyda'i gilydd. Prynodd pawb un tocyn yr un. Faint o docynnau wnaethon nhw eu prynu i gyd?

Os ydych chi'n prynu ceiliog er mwyn cael wyau, a'ch bod chi'n disgwyl cael tri wy bob dydd i frecwast, faint o wyau fydd gennych chi ar ôl tair wythnos?

ATEBION AR DUDALEN 14

## EITHINOG

**Y TEULU'N TYFU** Llongyfarchiadau i Richard a Delyth Williams, 20 Lôn y Bryn, ar ddod yn Nain a Taid am y trydydd tro. Ganwyd mab, Mabon Rhys, i Steffan a Gwenan yng Nghaernarfon ddiwedd mis Tachwedd – brawd bach i Ela Grug a Gwydion Llŷr. Yr anrheg Nadolig gorau.

**NEWYDD-DDYFODIAID** Croeso i Mr a Mrs Siôn Merfyn Owen a'r plantos i Lôn y Ffrwd. Symudodd y teulu o Ffordd Penrhos i Eithinog ddechrau mis Rhagfyr. Gobeithio'n wir y byddwch yn hapus yn ein plith.

**PRIODAS AUR** Llongyfarchiadau mawr i Meriel a Wil Parry, Bryn Eithinog, ar ddathlu eu priodas aur ddiwedd mis Rhagfyr. Priododd y ddau ar Ragfyr 29, 1971, yng nghapel Bethlehem, Talybont, a chynhaliwyd y wledd briodas ym Mhlas Coch, Llanedwen.

**COLLED** Trist oedd clywed am farwolaeth Gladys Lloyd Roberts, Lôn y Meillion, yn Ysbyty Dolgellau yn 96 oed. Roedd hi a'i gŵr yn arfer cadw siop esgidiau Palmers ar y Stryd Fawr ym Mangor. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd, yn arbennig ei phlant Steven, Susan a Paul.

**CYFARCHION PEN-BLWYDD** Roedd un o ddosbarthwyr y Goriad yn Eithinog, Jennifer Thomas, Lôn y Bryn, yn dathlu pen-blwydd arbennig ar ddiwrnod ola'r flwyddyn. Gobeithio ichi gael diwrnod i'w gofio, Jennifer, a diolch yn fawr am eich gwaith caled.

**DIOLCH MEDDAI'R GORIAD** Diolch i drigolion Eithinog sy'n derbyn y Goriad am eu cyfraniadau ariannol. Mae hi wedi bod yn gyfnod anodd dros ben ac mae eich haelioni yn golygu llawer .

Diolch hefyd i Susan Thomas, Bryn Eithinog. Mae Susan wedi gwirfoddoli i helpu i ddosbarthu'r Goriad yn Eithinog – diolch o galon.

# Cyfrol arall o law Dafydd

Mae Dafydd Tecwyn Ellis, y bardd o Lŷn sy'n byw ym Mryn Adda, Bangor, ers deuddeng mlynedd, ar fin cyhoeddi ei drydedd gyfrol o gerddi. Cyhoeddodd y gyntaf, *Y Gadlas a Cherddi Eraill,* yng Ngorffennaf 2019 a'r ail, *Cartre'r Awen,* ym mis Mai y llynedd.

Daw'r gyfrol newydd allan ym mis Mawrth ac un o'r cerddi ynddi yw awdl fer yn dwyn y teitl 'Chwyldro', sy'n sôn am y chwyldro a fu ym myd rhoddi gwaed. Mae Dafydd ei hun wedi rhoi peintiau lawer o waed dros y blynyddoedd gan helpu i achub cannoedd o fywydau. Dyma rai penillion o'r awdl i roi blas o waith un sy'n cynnwys y Prifardd Moses Glyn Jones ymhlith ei hynafiaid.

Gyda'r byd o hyd yn hyll – i filoedd
O ryfela'n gandryll,
Ffurfio ddaw'n gyffro drwy'r gwyll.


Â hwn yn un ag ynni ei wenau
A'i fynd yn eang heb ball er angau,
Daw byd i gyd i amgáu – alawon
A gân y galon yn llon drwy'r llannau.
...
Ond merched gwâr fel cariad
Ac â hedd er maes y gad,
Ddônt ag angerdd cyngherddau
Yn goeth ag ef yn amgáu,
Drwy'r byd yn hyder heb os
Amdanynt er grym dunos,
Pob corwynt sy'n hynt di-hedd
A holl awch treisio llechwedd.
...

O ieuo'n un â'n bywyd
Am byth is nen yn ben byd,
Eu llais llon wna ymhonni
Bod yn un â'n bywyd ni,
Ac wrth ddathlu hynny wnaeth
Y ddi-gêl fuddugoliaeth,
O siapio er tân annwn
Geiriau'u hedd wnïaf yn grwn,
Hyd un dydd er hedyn dôl
Ond yn saer a dyn siriol.
...
Ac ag eira eiria'i gri,
O afrwydd ac anhyfryd
Gŵyn am yr heulwen i gyd,
Hyn oll fel chwa ddilea aflawen
Sôn am fyw draw ymhob brwydr heb awen,
Yn rhyfel is ffurfafen – a holl fryd
Lladd o hyd hefyd yn rhaid dihufen.

# Stompio'r stryd







**HARRI CAMA MAWR**

**Ydi hi am fod yn Flwyddyn Newydd Dda i ti 'leni? Hugh Lôn Bopty oedd yn gweiddi ar draws y stryd. Cysgodi oedd o dan sgaffaldia Halifax. All hi ddim bod ddim gwaeth Hugh bach, medda finna. Edrych ar yr ochor ola' rŵan oedd ateb Hugh. Mae hi'n dechra gwella – y farchnad yn ôl ar ddydd Gwener, twll bach taclus Noodle One yn barod i rywun ei ail-lenwi, gwell siâp ar gapel Pendre' a chaffi newydd sbanci yn hen le ceir Derek. Mae 'na chwanag wsti, medda fo. A dyma finna'n dilyn y paun i fyny'r stryd.**

ENFYS. Enw da i ba fusnas meddach chi? Na, fedrwn inna ddim meddwl chwaith nes i mi weld yr enw newydd uwchben siop wag yn deud 'Angladdau Enfys Funerals'. Doedd y lle ddim cweit yn barod pan o'n i'n pasio ond roedd nodyn yn y ffenast yn deud mai dwy ferch – Manon a Louise – oedd am fod yno yn cynnal y busnas. Yn Llangefni'n barod dwi'n dallt. Hugh, oedd y lle yma yn dy restr?

**ARWYDD gobeithiol arall: drws yr hen bost wedi ei weld ar agor. Welwn ni 'Revive' go iawn cyn diwedd y flwyddyn? Dwylo efo'i gilydd amdani.**

DIM mor obeithiol mewn lle arall. Mi fydd Aldi yn symud o'u cartra clyd yn y ddinas i'r cyrion. Erbyn yr ha' mi fydd y lle mawr newydd ar Ffordd Caernarfon wedi agor. A be' ddaw i'r hen siop? Dibynnu ar yr economi, stiwpid.

**UN peth dwi am gael gwared arnyn nhw 'leni, medda cynghorydd wrtha i wrth eu pasio, ydi'r rhein. Pwyntio'i fys wnaeth o at y binia sbwriel mwy na'r cyffredin sydd wedi bod yn nrws siop wag mewn man amlwg ers sbel. Ydyn, maen nhw'n gythreulig o hyll. Bron gyn hylled â'r ffenestri budr, posterog y tu ôl iddyn nhw. Gawn ni weld fyddan nhw wedi mynd cyn 'Dolig nesa'.**

MAE stori'r sgaffaldia'n parhau. Mi ddaethon nhw i lawr oddi ar yr hen City Amusements. Mi aeth rhai i fyny tu allan i siop O2 yn lle bod y stryd yn edrych rhy llwm. Ble bydd y rhein yn dodwy nesa'?

**DAU le haul ar y stryd, medda Gareth Treborth y diwrnod o'r blaen. Dau oedd o wedi eu gweld wrth gerdded heibio, efalla' fod 'na ragor. Be' ydyn nhw haws â chael lliw haul a nunlla i fynd i'w ddangos o? Dydi pob gwlad wedi cau. Byw mewn gobaith maen nhw Gareth, medda finna. Mi wellith pan ddaw'r gwanwyn a'r eroplêns yn codi eto.**

PLACIA ar adeilada, dyna betha sy'n boendod ar adega. Glywsoch chi fod Cyngor y Ddinas wedi meddwl mai So Chic oedd y lle i roi plac Glyndŵr, i nodi fod yr hen wariar wedi arwyddo rhywbeth o'r enw Cytundeb Tridarn ym Mangor ganrifoedd yn ôl? Fanno oedd Tŷ'r Deon yr adeg honno. Ond yn nhŷ'r Archddiacon wnaethon nhw arwyddo'r Tridarn! Mae rhyw ailfeddwl wedi bod, medda un o'r cynghorwyr wrtha i. Y lle calla' i'w roi, i fod yn hanesyddol gywir, ydi Neuadd y Penrhyn lle mae 'r Cyngor yn cyfarfod. Mae ganddyn nhw betha pwysicach ar eu meddwl wrth gwrs a'r penna' peth ydi dod o hyd i Gyfarwyddwr Dinesig newydd. Neu Glerc i ddechra hwyrach.

# DEUDWCH I MI: Goriad yn holi a stilio

**Enw:**
Dewi Llwyd
**Gwaith:**
Darlledwr
**Ydi'r cyfnod clo wedi effeithio arnoch chi?**
Ar adegau mae wedi bod yn anodd gweld y teulu, ond wrth lwc dydw i ddim wedi bod yn sâl hyd yma, ac roedd modd imi barhau i weithio yr holl amser. Yn hynny o beth roeddwn yn hynod ffodus o gymharu â llawer. Y newid mwyaf oedd bod yn rhaid darlledu o'r cartref – profiad digon rhyfedd, a diflas hefyd pan oedd y dechnoleg yn simsanu ac eraill yn y tŷ'n gwneud sŵn!

Er fod y cyfrwng wedi bod yn ffon fara imi am flynyddoedd lawer ychydig o deledu y bydda i'n ei wylio ar y cyfan.

**A oes amser i ddiddordebau?**
Yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf digon o amser i ddarllen a gwrando ar y radio gan nad oedd modd teithio i wneud cyfweliadau na chyflwyno rhaglenni. Doedd dim cyfle ychwaith i fynd i wylio chwaraeon gan fod drysau llefydd fel Old Trafford wedi eu cau am gyfnod hir, ond mae'r beic wedi cael defnydd helaeth iawn. Gyda lwc bydd mwy o amser i ddiddordebau wrth roi'r gorau i weithio ar benwythnosau.
**Fyddwch chi'n cadw'n heini?**
Mae gen i gyfres o ymarferion y bydda i'n eu gwneud yn y tŷ, ond mynd ar y beic sy'n rhoi'r boddhad mwyaf heb os.

Mae gwydraid o win coch safonol wastad yn plesio.

**Ydych chi'n credu mewn bwyta'n iach?**
Mae'r fwydlen wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd, ac efallai 'mod i'n bwyta llai o gig coch nag oeddwn i ddeng mlynedd yn ôl. Dydi gwrthod siocled ddim yn dod yn hawdd!
**Pa un yw eich hoff bryd?**
Does gen i ddim hoff bryd a dweud y gwir, ond mae'n siŵr y byddai pysgodyn yn rhan ohono.
**Ffrwythau neu rywbeth melys i bwdin?**
Hoff iawn o'r ddau!
**Pa ddiod yw'r orau gyda'r pryd?**
Popeth yn gymedrol, ond mae gwydraid o win coch safonol wastad yn plesio.
**A oes llyfr wedi apelio yn ddiweddar?**
Mae'r gyfrol o ysgrifau gan Angharad Price, *Ymbapuroli,* yn ardderchog, ac mi wnes i fwynhau darllen cyfres o dri llyfr ditectif gan Alun Davies. Yn Saesneg dwi newydd orffen llyfr am wleidyddiaeth America yng nghyfnod Trump gan Jon Sopel, *UnPresidented.*
**A oes gennych hoff awdur?**
Mae'r cwestiwn yna yr un mor amhosibl ei ateb â'r un am raglenni radio isod!

Mae'r gyfrol o ysgrifau gan Angharad Price, *Ymbapuroli,* yn ardderchog.

**Ydych chi'n gwylio rhaglenni teledu ar y teledu neu gyfrifiadur?**
Rhywfaint o'r ddau.
**Ydych chi'n newid o un sianel i'r llall yn gyson?**
Nac ydw.
**A oes hoff raglen deledu?**
Er fod y cyfrwng wedi bod yn ffon fara imi am flynyddoedd lawer ychydig o deledu y bydda i'n ei wylio ar y cyfan, ar wahân i raglenni newyddion a chwaraeon. Ond dwi wedi bod yn gwylio'r gyfres deledu enwog *The West Wing* o'i dechrau i'w diwedd. Os cewch chi gyfle, mae hi'n wych!
**A oes hoff raglen radio?**
Mae'n gwestiwn rhy anodd i'w ateb



*Wedi cyflwyno rhaglen olaf* 'Dewi Llwyd ar fore Sul' *cafodd gloc (heb larwm!) a cherdd gan Rhys Iorwerth yn anrheg (er iddo ddweud ar y rhaglen mai sacsaffon fyddai ei anrheg pen-blwydd delfrydol!).*

o safbwynt rhywun sy'n gwrando cymaint ar y radio! Mae'n gyfrwng sy'n cynnig y fath amrywiaeth, ac mae'r we wedi sicrhau fod modd gwrando ar unrhyw orsaf lle bynnag y mae hi yn y byd. Ar un adeg roedd yna boeni am ei ddyfodol, ond mae wedi dal ei dir yn rhyfeddol.
**A yw gwyliau'n rhan bwysig o'r flwyddyn?**
Ydyn heb os. Mae wedi bod yn chwith garw hebddyn nhw yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
**Ai dramor fydd y gwyliau arferol?**
Gan amlaf ie, ond efallai y bydd angen ailystyried o hyn ymlaen o gofio effaith teithiau awyr ar newid hinsawdd. Trên i'r cyfandir amdani!
**A oes un wlad yn apelio yn fwy na'r llall?**
Gan 'mod i mor gyfarwydd â hi ers pan oeddwn i'n gwersylla yno gyda 'mrawd a'm rhieni yn y chwedegau, byddai'n rhaid imi ddewis Ffrainc. Fel y gallech chi ddychmygu roedd treulio mis yno yn ystod yr Ewros yn fythgofiadwy.
**A oes awgrym sut i godi'n calonnau ar gyfnod mor ddyrys?**
Beth am wrando mwy ar y radio?!

## Tudalen y Plant - atebion

**Croesair**

**Ar draws**
3. T Llew Jones
8. Sac Jones
10. Meinir Pierce Jones
11. Caryl Lewis
12. Dafydd Parri (Cyfres y Llewod)

**I Lawr**
1. Brenda Wyn Jones
2. Manon Steffan Ros
4. Leisa Mererid
5. Roald Dahl
6. Bethan Gwanas
7. Jessica Dunrod
9. Casia Wiliam


**Posau i'ch drysu!**

3 thocyn (mae'r taid hefyd yn dad ac mae'r tad hefyd yn fab)

Dim wyau o gwbl - dydy ceiliog ddim yn dodwy!

# CROESAIR

**Rhif 391**



Enw: ..........................................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................................

..................................................................................................

..................................................................................................

Noder: Bydd bloc ar gyfer pob symbol. Felly bydd y llythrennau dd, ng, ll etc. yn cymryd dau floc. Anwybydder yr hirnod am y tro. **Cyflwynir tocyn llyfr yn rhodd am yr ateb cyflawn cyntaf a dynnir o het ar 26 Ionawr 2022.** Atebion i: Croesair Goriad, 4 Goleufryn, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2LY.

**AR DRAWS:**
1. Dathliad pen-blwydd yr Urdd eleni (13)
8. Hwyr a "duwch rhiniol" Meuryn (10)
10. Tir yng nghoflaid y dŵr (4)
11. Fel uned ymhlith y lluosog (6)
15. Hapus weithiau, bryd arall ffroenuchel a thlawd (5)
19. Cefngrwm (5)
20. Gwatwarus (8)
22. Bythol droellog sebon y gogledd (5,1,5)
23. Llanddwyn ramantus (4,8)

**I LAWR:**
2. Archfarchnad lle bu "uffar o row" chwedl RWP (4)
3. Trwsiwr ceir cyffredin a'r mêc cain (7)
4. Merch dy ferch (5)
5. Y ddwy ochr (5)
6. Deunydd tŵr y crach uwchlaw byd y werin (5)
7. Distaw (5)
9. Cawl o air (8)
12. Ceiniog y Cofiadwy a chweched ran sei (4)
13. Ymborth plygeiniol o'r ŷd a'r gwenith (9)
14. Coron Eryri a gafodd enw main (2,6)
16. Ysbeilwyr Alibabaidd (7)
17. Swyddog deddfol (7)
18. Egwyl ymlaciol (7)
21. Gostyngiad fel yn llif cleifion Cofid gobeithio (4)

Atebion Mis Rhagfyr:
AR DRAWS: 1. Y Coleg Cymraeg 8. Gŵyl y Felin 10. Trol 11. Amharu 15. Un mab 19. Llaid 20. Recordio 22. Datgorffori 23. C'mon Midffîld.
I LAWR: 2. Cega 3. Llyfrfa 4. Gwyll 5. Yr epa 6. Rhith 7. Gwadu 9. Deudroed 12. Magl 13. Anfarwoli 14. Mabinogi 16. Macadam 17. Bariton 18. Aduniad 21. Yfaf.

Cyhoeddir atebion Croesair Mis Ionawr ynghyd ag enw'r enillydd yn rhifyn Mis Chwefror. **Enillydd Croesair Mis Rhagfyr gydag ateb cyflawn oedd Cynthia Owen, Eithinog.** Daeth nifer o rai eraill i law, a chafwyd atebion cyflawn gan: Tecwyn Edwards, Newcastle upon Tyne; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Nerys a Gwil, Y Felinheli; Gwenno Pritchard, Penrhosgarnedd; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Anna Roberts, Cilfach Crwys; Liz Roberts, Lôn y Meillion; T. a G. Roberts, Rhosmeirch.

# Ymweliad Siôn Corn â phlant Maestryfan



Llun: Ben Popat

Yn anffodus oherwydd cyfyngiadau Covid, ni fu'n bosib i blant Maestryfan ddathlu'r ŵyl drwy gynnal parti Nadolig eleni, er gwaetha'r holl drefnu gan Grŵp Cymunedol Maestryfan. Felly, gwahoddwyd Siôn Corn i ymweld â'r plantos yn y parc, yn yr awyr iach!

Roedd y plant wedi eu cyfareddu gan yr hen ŵr, ac wrth eu boddau efo hwyl yr ŵyl. Braf oedd gweld y parc yn fan cyfarfod ar gyfer y gymuned.

Sefydlwyd y Grŵp i uwchraddio mwynderau prin yr ardal a rhannwyd y newyddion da fod ychydig o offer newydd ar ei ffordd i'r parc yn y flwyddyn newydd. Rydym yn gobeithio am ragor o newyddion da yn fuan yn 2022. Dilynwch ein tudalen Facebook am ragor o wybodaeth.

Diolch i bawb am drefnu. Diolch hefyd i Sarah Pritchard (pencampwr cymunedol Tesco Bangor) a Leah Williams (pencampwr cymunedol Morrisons Bangor) a chefnogwyr annibynnol eraill am eu cefnogaeth barhaus ers sefydlu'r Grŵp 'nôl yn yr haf. Heb gefnogaeth leol, ni fyddai modd i'r Grŵp gynnal digwyddiadau, nac anelu am yr her enfawr o uwchraddio holl offer y parc a gwella mwynderau'r ardal yn gyffredinol. Bydd hynny er budd y gymuned, a phobl Bangor i gyd!

# CAPEL Y FFYNNON

**CYFARFODYDD Y NADOLIG** Dros gyfnod yr Adfent bu myfyrdodau 'Gair o'r Gell' yn ymddangos yn ddyddiol ar ein sianel YouTube, gan ddilyn thema draddodiadol y pedair wythnos, sef Gobaith, Paratoi, Llawenydd, ac Addoliad. Mae'r myfyrdodau hyn yn parhau ar y we.

Gyda'r newid mewn cyfarwyddyd gan y llywodraeth, gohiriwyd ein cyfarfod carolau awyr agored. Yn hytrach, darlledwyd gwasanaeth carolau ar ein sianel YouTube nos Sul, 19 Rhagfyr. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan amryw o aelodau'r eglwys, gyda charolau wedi eu recordio o flaen llaw, a'n gweinidog yn cydlynu'r cyfan.

Rhannwyd yn agos i fil o gopïau o gylchgrawn Nadolig o'r enw 'Holi' gan yr aelodau oedd yn cynnwys tystiolaeth o dröedigaeth, o gynhaliaeth Duw trwy gyfnodau anodd, ac o edrych eto ar ystyr y Nadolig.

Bore Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth yn Neuadd y Pentref, Rhiwlas, pan fu nifer o deuluoedd yr eglwys yn cyflwyno'r Nadolig mewn carol, stori a myfyrdod. Ymunodd eraill trwy gyfrwng y we, gyda'r plant yn cael sylw arbennig wrth gwrs.

Yna ar ŵyl San Steffan, sef dydd Sul y 26ain, cynhaliwyd gwasanaeth, eto yn Neuadd Rhiwlas, gyda'r pwyslais yn parhau ar thema'r Nadolig, wrth i'n gweinidog ein harwain i ystyried hanes Simeon yn cymryd y baban Iesu yn ei freichiau i fendithio Duw am ei iachawdwriaeth. Roedd hon yn oedfa arbennig, gan mai dyma'r gwasanaeth olaf i'r Parch Dafydd Job ei arwain fel ein gweinidog. Gan feddwl am Simeon yn tystio am yr Arglwydd Iesu, a Mair yn rhoi'r hanes i Luc a'r apostolion yn eu tro yn parhau â'r gwaith, cawsom ein hannog yn y bregeth i dystio i'r un Iesu, gyda'r baton yn cael ei drosglwyddo i ddwylo'r genhedlaeth nesaf i ddwyn y dystiolaeth yn ei blaen.

**YMDDEOLIAD EIN GWEINIDOG** Ddiwedd Rhagfyr daeth cyfnod y Parch Dafydd Job fel ein gweinidog yma i ben. Daeth yma gyda Gwenan a'r tri phlentyn yn 1985 i fod yn weinidog cyntaf yr eglwys, a sefydlwyd y flwyddyn honno. Cyn hynny bu'n weinidog gyda'r Presbyteriaid yn Llandrillo, Llandderfel a Chynwyd. Gyda dim ond pymtheg o aelodau yma ar y pryd roedd yn fenter o ffydd, ond bu'r eglwys dan ei arweiniad dros y 36 mlynedd, gan gyfarfod mewn amryw lefydd cyn gallu ymsefydlu yng Nghapel y Ffynnon (sef hen Gapel Penrallt, lle bu'r Bedyddwyr Saesneg yn cyfarfod cyn iddynt symud i Fangor Uchaf).

Prynhawn Sul, 19 Rhagfyr, ymgasglodd yr eglwys ym mwyty Dylan's ym Mhorthaethwy i gael pryd o fwyd i gofnodi ymddeoliad Dafydd, wedi cymaint o flynyddoedd. Wedi'r bwyd cafwyd gair gan rai o'r aelodau, gan gynnwys William Bromley, un o aelodau gwreiddiol yr eglwys, a rhannodd yntau rai atgofion o'r modd yr oedd pethau wedi newid dros y blynyddoedd.

Cyflwynwyd print o lun o fynyddoedd Eryri gan Sioned Glyn i Dafydd, ynghyd â llyfr o luniau, atgofion a chyfarchion nifer o'r rhai fu'n mynychu'r eglwys, yn gyn-aelodau a myfyrwyr, dros y blynyddoedd. Diolchodd Dafydd am y caredigrwydd a'r ffyddlondeb y bu iddo eu profi ar draws y blynyddoedd, gan nodi, er ei fod yn ymddeol, y byddai'n parhau yn yr eglwys, gan edrych ymlaen at fod yn aelod i eistedd ochr yn ochr â'r gynulleidfa i'r dyfodol. Ond roedd y diolch pennaf, meddai, i Dduw am ei ddaioni a'i ffyddlondeb yn ein cynnal dros y blynyddoedd.

**NEWID LLEOLIAD** Fel y nodwyd fis diwethaf, rydym yn parhau i fethu defnyddio Capel y Ffynnon ar hyn o bryd, ac o 9 Ionawr byddwn yn cyfarfod yn Ysgol y Garnedd ar fore Sul am 10.30. Gellir cael y manylion ar ein gwefan *www.capelyffynnon.org*, a bydd ein gwasanaethau yn parhau i gael eu ffrydio ar YouTube bob Sul gyda'r manylion ar ein tudalen Facebook.



*Y Parchedig Dafydd Job gyda'i wraig Gwenan a henaduriaid yr eglwys. Mae'n cydio yn y llyfr o gyfarchion a gyflwynwyd iddo ar ei ymddeoliad.*

## 'Archif o gymuned glòs, Gymraeg'

Mae'r Aelod o'r Senedd lleol wedi talu teyrnged i gasgliad o luniau sy'n portreadu bywyd yn Hirael yn y 1970au gan y ffotograffydd Garry Stuart.

Cyhoeddir *Hirael, North Wales – 1976* gan Café Royal Books ac mae detholiad o'r ffotograffau yn cael eu harddangos yn Bwyd Da Bangor ar Stryd Fawr Bangor.



Ar ymweliad diweddar â'r fenter fwyd newydd, galwodd y gwleidydd y casgliad yn 'archif o gymuned glòs, Gymraeg' sy'n rhoi cyfle i bobl leol hel atgofion.

Mae'r lluniau yn y casgliad yn dyddio'n ôl i 1976, pan oedd Garry'n fyfyriwr ôl-radd ym Mangor.


FFRAMIA
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
01286 870922
www.fframia.com Dilwyn Pritchard
FFRAMIA
UNED 4, PARC PADARN
LLANBERIS
GWYNEDD LL55 4TY
post@fframia.com Dros 25 mlynedd o brofiad

K. W. JONES
Peirianwyr Ceir
Central Garage, Y Felinheli
Ffôn: (01248) 670277
*Tiwnio Bosch, Prawf M.O.T.*
*Gwerthir ceir ail-law hefyd, gwarant 12 mis*

01248 352 555
ffalabalam
...gofal bob cam
Meithrinfa
Clwb ar ôl Ysgol
Clwb Gwyliau
Ffordd Penrhos
Bangor
LL57 2BX
@MeithFfalabalam
facebook.com/ffalabalam
swyddfa@ffalabalam.co.uk

# YSGOL TRYFAN



**GYMNAST GWYCH**
Llongyfarchiadau mawr i Alys Banham ar ei llwyddiant yng nghystadleueaeth gymnasteg Gogledd Cymru. Cafodd bedair gwobr gyntaf mewn cystadlaethau gwahanol.

**DYLUNIO GWEFANNAU CYNNIG CYNGOR** Yn eu gwersi Cymraeg mae disgyblion blwyddyn 8 wedi bod yn brysur yn cydweithio er mwyn dylunio gwefannau sy'n cynnig cyngor ynglŷn â phob math o bethau i blant a phobl ifanc.

**WYTHNOS YNG NGHWMNI TECHNOCAMPS** Cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 wythnos o brofiadau gwych o dan arweiniad swyddogion brwdfrydig technocamps. Roedd y disgyblion wedi mwynhau dysgu am Lego Robotics, Ynni Adnewyddadwy a Meddwl Cyfrifiadurol.



**LLONGYFARCHIADAU I ESTHER** Llongyfarchiadau mawr iawn i Esther Parry, blwyddyn 8, ar ei llwyddiant mewn clyweliad gyda Cherddorfa Genedlaethol Plant Prydain. Mae Esther wedi cael ei dewis i fod yn rhan o'u prosiectau ar gyfer 2022.

**CEFNOGI BANC BWYD Y GADEIRLAN** Roedd disgyblion, rhieni a staff yr ysgol wedi cefnogi ymgyrch apêl Banc Bwyd y Gadeirlan eleni. Hoffem ddiolch i bawb am yr holl gyfraniadau caredig.

**CYNGERDD NADOLIG YSGOL TRYFAN** Nid oedd yn bosib trefnu cyngerdd Nadolig arferol eleni, felly trefnwyd cyngerdd i ddathlu'r Nadolig yn rhithiol. Diolch yn fawr iawn i Mr Hefin Evans (Pennaeth Cerdd) a'n holl ddisgyblion talentog am eu perfformiadau gwych. Mae'n bosib i chi fwynhau'r dathliadau Nadolig ar dudalen Facebook Ysgol Tryfan.

**THE GREAT YEAR 8 BALLOON DEBATE** Roedd disgyblion blwyddyn 8 yr Adran Saesneg wedi mwynhau'r cyfle i ddadlau a siarad yn gyhoeddus yn 'The Great Year 8 Balloon Debate'. Bu'r disgyblion yn dadlau ar ran cymeriadau amrywiol iawn gan gynnwys Cleisthenes, Mo Sallah, Aneurin Bevan, Grace Hopper, Martin Luther King a Spiderman.



**NEWYDDION O'R MEYSYDD CHWARAEON** Cafodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 7 gyfle i fwynhau bore gwych o bêl-droed yng nghanolfan Brailsford ddiwedd y tymor. Diolch yn fawr i Josh, Logan, Steffan ac Ethan o flwyddyn 12 am arwain.

Pob lwc i Elis Evans, blwyddyn 13, sy'n ymarfer gyda thîm rygbi dan 18 oed Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-droed blwyddyn 7 ar eu buddugoliaeth yn erbyn Ysgol Friars.

Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 7–10 yn eu llwyddiant yn erbyn St Gerard's wrth chwarae pêl-rwyd.



## Am gadw lle chwarae'r Pier

Roedd aelodau Cyngor y Ddinas yn flin pan glywyd mewn cyfarfod o'r cyngor am ychwanegu'r maes chwarae sydd wrth ymyl Bwyty'r Pier at les y bwyty. Byddai hyn yn golygu gwaredu'r hen offer chwarae, rhoi'r hyblygrwydd i'r perchnogion newydd osod byrddau, a chiosg i werthu diodydd/hufen iâ, gan dynnu'r cyfrifoldeb am yr ased oddi ar y Cyngor.

Teimlai'r cynhgorwyr yn gryf y dylai'r lle chwarae aros yno ac y dylid gwella'r offer os oedd modd. Penderfynwyd gwrthod y cynnig nes bod yr aelodau'n fodlon â thelerau'r les.

## Ffarwelio â'r Cyfarwyddwr Dinesig

Cyfarfod Cyngor y Ddinas ar 13 Rhagfyr oedd yr un olaf i'r Cyfarwyddwr Dinesig. Diolchodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Gwynant Roberts, i Iwan Williams am ei waith caled yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd fod pawb yn ddiolchgar am yr hyn yr oedd wedi'i gyflawni, a'i bod wedi bod yn bleser gweithio gydag ef. Roedd pawb yn flin i'w weld yn gadael. Gan fod y Maer yn absennol yn y cyfarfod, roedd ef hefyd wedi ysgrifennu nodyn i ddiolch.

Ni chafwyd ymateb i'r hysbyseb am Glerc dros dro. Bu'r grŵp gorchwyl a gorffen staffio yn cyfarfod wedi hyn i drafod y mater.

**Clynnog & Trefor**
TREFOR, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5HP
01286 660208 Ffacs: 01286 660538

**EMYR DAVIES A'I GWMNI**
(D. G. Edwards a V. Edwards)
Offer Trydan o bob math
am bris rhesymol
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~
**Y SIOP DRYDAN**
327, Stryd Fawr, Bangor Ffôn: 362647
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## CPD BANGOR 1876

# 1876 yn edrych ymlaen at 2022



Eisteddle Vera Owen yn Nhreborth er cof am y diweddar Vera Owen (ar y dde)

**Bu'n fis Rhagfyr distaw iawn i chwaraewyr a chefnogwyr Bangor 1876 gydag effeithiau'r pandemig, a phryderon am yr effeithiau hynny, yn golygu bod y rhaglen ganol tymor wedi ei dileu i bob pwrpas. Gydag Omicron yn creu ofnau o'r newydd, mae'r awdurdodau pêl-droed wedi gohirio pob gêm oedd i'w chwarae cyn 8 Ionawr. Efallai y bydd gohirio pellach os bydd Llywodraeth Cymru yn cynghori'r Gymdeithas Bêl-Droed (a ninnau) i barhau gyda'r cyfyngiadau.**

Chwaraewyd dwy gêm ar ddechrau'r mis. Yng Nghwpan Eilradd yr Arfordir, Tref Llanfairfechan oedd y gwrthwynebwyr yn Nhreborth ar y pedwerydd. Llifodd y goliau i'r tîm cartref yn yr hanner cyntaf gyda'r Gleision 4 i ddim ar y blaen ar ôl tri chwarter awr. Siomedig oedd y perfformiad yn yr ail hanner gyda'r gêm yn diweddu 5–1 i 1876.

Wythnos yn ddiweddarach teithiodd y tîm, a nifer sylweddol o gefnogwyr, i Fryn Du ger Llanfaelog ar gyfer gêm yn erbyn Aberffraw. Ar brynhawn a ddechreuodd yn wyntog a glawog iawn, roedd safon chwarae'r ymwelwyr gyda'r gorau a welwyd y tymor hwn. Chwaraeodd Cian Thomas, gôl-geidwad 16 oed, ei gêm gyntaf i'r Clwb ond yr hen lawia, Sion Edwards, Chris Jones (2), Les Davies a Michael Johnston, y capten, sgoriodd i Fangor (gyda'r olaf yn cael ei gôl gyntaf mewn dwy flynedd). Roedd pawb yn fodlon iawn gyda'r fuddugoliaeth o 5 gôl i ddim.

Fel mae'n digwydd, Berffro fydd yn wynebu 1876 yn rownd go-gyn-derfynol y Cwpan Eilradd gyda'r gêm i'w chwarae ar 5 Chwefror os na fydd cyfyngiadau pellach. Cyn hynny, fe fydd y Gleision yn ymweld â Thref Amlwch yng Nghwpan Prif Gynghrair Gorllewin yr Arfordir (Cynghrair Gwynedd â Môn tymor nesaf!). Yn y ddwy gêm flaenorol yn erbyn Amlwch eleni, mae'r tîm o Fangor wedi sgorio 19 o goliau, heb ildio'r un, ond pwy a ŵyr beth fydd y canlyniad yn y Gwpan. Os na fydd cyfyngiadau, fe fydd y gêm yn cael ei chwarae ar 22 Ionawr.

Pythefnos cyn hynny mae'r tîm i fod i chwarae i ffwrdd yn erbyn Glantraeth ar 8 Ionawr cyn wynebu Penrhyndeudraeth gartref ar 15 Ionawr. Disgwylir gornest gystadleuol iawn yn erbyn y tîm o Feirionnydd gan mai Penrhyn oedd y tîm cyntaf i sicrhau pwynt oddi ar Fangor yn y gynghrair ers sefydlu'r Clwb. Ar ddiwedd y mis disgwylir gêm glos arall pan fydd y tîm yn ymweld â Nefyn. Er iddynt golli eu ffordd braidd yn yr wythnosau cyn y toriad, mae'r Penwaig yn bedwerydd yn y tabl, ond gyda naw pwynt yn llai na 1876 ac wedi chwarae un gêm yn fwy. Disgwylir cefnogaeth gref i'r Bangoriaid yng Nghae'r Delyn.

Cyn y gêm yn erbyn Llanfairfechan, cynhaliwyd seremoni i enwi'r eisteddle yn Nhreborth yn 'Eisteddle Vera Owen' er cof am un o selogion pêl-droed y ddinas ers rhai degawdau. Roedd yn gefnogwraig frwd i'r tîm 'newydd', yn aelod o'r Bwrdd, ac yn weithgar a chroesawgar fel aelod o dîm cefnogol y Clwb sy'n edrych ar ôl swyddogion a chwaraewyr ar ddiwrnod gêm - mae bwlch mawr ar ei hôl. Roedd yn braf iawn gweld teulu Vera yn mynychu'r achlysur, ac mae diolch i Brifysgol Bangor am gydnabod cyfraniad Vera i bêl-droed yn y ddinas yn y fath fodd.


Fel pawb, mae'r Clwb yn edrych ymlaen at flwyddyn newydd lewyrchus ac yn dymuno'r gorau i'w cefnogwyr, eu noddwyr, eu gwirfoddolwyr a'u chwaraewyr, ac i'r tîm rheoli a hyfforddi sy'n mynd â'r hogiau o nerth i nerth.

## Gwrthod altro tŷ

Gwrthododd Cyngor Gwynedd gais i newid defnydd 25 Ffordd Penchwintan yn dŷ aml-feddiannaeth. Y farn oedd bod gormod o dai tebyg eisoes yn ward Hendre, Bangor, ac y byddai un arall yn debygol o gael effaith niweidiol ar gymeriad cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

## Na i newid cyfnod

Ni roddwyd caniatâd i chwalu adeiladau presennol Tŷ Blenheim (hen le Period Interiors). Y bwriad oedd codi adeilad pedwar llawr i greu 36 uned breswyl, creu llefydd parcio, newid y fynedfa a chreu un arall.






CPD DINAS BANGOR

# Clwb Nantporth a'i ddyledion ar werth



*Tawelwch wedi taro Nantporth*

**Be' sy'n digwydd yn Nantporth ydi'r cwestiwn y mae llawer yn ei ofyn. A fydd unrhyw chwarae yno eto? Erbyn i hyn ymddangos efallai y bydd rhywbeth wedi datblygu. Serch hynny, er i'r perchnogion presennol addo y byddai pawb yn cael gwybod beth oedd yn digwydd ar ôl iddyn nhw gael eu hatal dros dro o gynghrair JD Cymru North ni chafwyd unrhyw wybodaeth cyn dechrau'r flwyddyn.**

Yr addewid yn nechrau Rhagfyr oedd y byddai datganiad pellach ar eu gwefan. Ni welwyd dim tan y Nadolig. Ar eu cyfrif twitter daeth llun o gae Nantporth a Nadolig Llawen arno, ac un wedyn gyda Blwyddyn Newydd Dda, yn Gymraeg yn unig.

O leia' roedd hynny'n dangos arwydd bach o fywyd. Rydan ni'n deall fod y clwb ar werth a bod posibilrwydd fod prynwr â diddordeb ynddo. Ond mae'r perchennog, Domenico Serafino, yn awyddus i'r prynwr newydd dalu dyledion y dirwyon a gawson nhw gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru. Roedd y rhain yn £54,000 am beidio â thalu i chwaraewyr y clwb. Daeth dwy ddirwy arall wedyn.

Daeth i'n clyw fod y perchennog wedi gwrthod £200,000 am y clwb a'i fod eisiau cymaint â £1 miliwn. Nid oes sicrwydd a fydd yn derbyn hynny ond mae sôn fod rhai o'r tu allan i Gymru yn cymryd diddordeb. Gan gofio hanes diweddar Bangor City mae'n anodd credu y gallai neb lleol fforddio talu cymaint.

Pan gawson nhw eu rhwystro rhag chwarae, y gêm nesaf i fod oedd yn erbyn Bwcle (Buckley Town). Ond am nad oedd ganddyn nhw hawl i chwarae cafodd y gêm ei gohirio. Yn ychwanegol yr oedd y clwb yn cael dirwy o £1,000 o bunnau gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru am hyn. Ac roedd tri phwynt yn cael ei dynnu oddi arnyn nhw hefyd.

Digwyddodd yr un peth wedyn pan oedd Prestatyn i fod i ymweld ar 11 Rhagfyr – dirwy arall a thynnu pwyntiau. Mae hynny'n golygu fod Bangor ar waelod tabl JD Cymru North.

Ers hynny mae'r gemau Cymreig wedi eu gohirio beth bynnag oherwydd Covid-19. Mae'r gemau i fod i ailddechrau ar nos Wener, 21 Ionawr. Ond nid oes hanes o Bangor City yn rhestr y gemau y noson honno na'r diwrnod wedyn.

Mae pedwar o chwaraewyr yn dal ar lyfrau'r clwb – o leiaf ddau yn chwaraewyr tramor – a Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn eu gwarchod. Gwyddom fod rhai yn cadw llygad ar y clwb yn Nantporth. Er nad oes neb yn edrych ar ôl y cae chwarae mae mewn cyflwr gweddol, ond bydd gwaith i dirmon ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol.

### Ateb POS CAMEL A MUL

**Mae camel bum darn arian yn ddrutach na mul.**

## digwyddiadur

digwyddiadurgoriad@yahoo.co.uk

**Croeso ichi roi gwybod inni am ddigwyddiadau go iawn a rhai ar Zoom**

**DIGWYDDIADAU RHITHIOL**

CANGEN BANGOR O RADDEDIGION PRIFYSGOL CYMRU

**28 Ionawr** ar Zoom. Yr Athro Simon Brooks yn trafod 'Y Roma a'r Cymry – bywyd lleiafrif yn y Gymru Gymraeg'. **Bydd y ddarlith am 6.00 pm ond awgrymir cysylltu'n fuan ar ôl 5.45pm i sicrhau cyswllt.**

**4 Mawrth,** ar Zoom: Eleni dethlir canmlwyddiant sefydlu Cyfarwyddwr Cerdd cyntaf Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, sef E. T. Davies. Bydd Wyn Thomas, cyn-aelod o'r Adran Gerdd, yn sôn am ddechreuadau'r Adran ym Mangor a'r cam pwysig hwn yn ei hanes.

Os nad ydych eisoes ar ei rhestr bostio, anfonwch at Megan Tomos, yr Ysgrifennydd, ar mht263@btinternet.com i drefnu ymuno â'r cyfarfodydd.

CANOLFAN UWCHGWYRFAI, CLYNNOG FAWR

Parheir â'r cyfarfodydd Sŵm am Dymor y Gaeaf 2022. **Dechreuir am 7pm,** ond bydd y cysylltiad ar agor 10 munud ynghynt.

Cysyllter â Jina i gael y ddolen: canolfanuwchgwyrfai@gmail.com

**28 Ionawr (Gwener)** EIN GWIR HANES: Ieuan Wyn: Tynged yr Iaith - Y Ddarlith

**25 Chwefror (Gwener)** Howard Huws: H.M. Stanley

DARLITHOEDD CYHOEDDUS SHANKLAND

**Darlledir y darlithoedd am 5pm** trwy Teams. I gael y dolenni ewch at http://colclough.bangor.ac.uk/digwyddiadau

**12 Ionawr:** 'Gladys Thoday: academic, suffragist, peace campaigner and honorary botany lecturer at UCNW' gan y Dr Dinah Evans, Cydymaith Ymchwil Anrhydeddus, Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, Bangor ac Archif Menywod Cymru.

**19 Ionawr:** Books on my Bookshelf: Yr Athro Emerita Nancy Edwards FBA, FLSW, FSA mewn trafodaeth gyda'r Athro Sue Niebrzydowski (Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau) am y llyfrau sydd wedi bod yn bwysig yn eu bywydau.

MERCHED Y WAWR, PENRHOSGARNEDD: Ar hyn o bryd, cyfarfodydd Zoom fydd y rhain, **nos Fercher unwaith y mis.** Bydd gweithgareddau'n **cychwyn am 7.30pm,** ond bydd y cysylltiad ar agor dipyn cyn hynny ar gyfer sgwrsio. £18 y flwyddyn gan gynnwys cylchgrawn 'Y Wawr' neu £4 y cyfarfod. Cysylltwch â Cynthia Owen, 364008, neu e-bost cynthiaowen@tiscali.co.uk

**19 Ionawr:** Noson yng nghwmni Gari Wyn

**16 Chwefror:** Nerys Roberts yn rhoi hanes ei chyfnod yn Warden yn y Las Ynys

**16 Mawrth**: Noson gerddorol efo Valerie Tecwyn Ellis

**27 Ebrill:** Sesiwn o Ioga Cadair

**18 Mai:** Marian Wyn Jones yn rhoi hanes ei gyrfa

**15 Mehefin:** Cyfle i grwydro. Y trip blynyddol

**DIGWYDDIADAU 'YN Y CNAWD'**

Awgrymir ichi gysylltu â'r trefnwyr cyn teithio i unrhyw gyfarfod, i gadarnhau nad yw'r sefyllfa wedi newid.

CYLCH LLENYDDOL Y FAENOL FAWR

Ysg: Meurig Owen, 01745 582531, meurigowen2014@gmail.com, Cyfarfodydd yn brydlon am 7pm yng Nghapel Trefnant, yng nghanol pentref Trefnant. Aelodaeth £12 y tymor; ymwelwyr: £4 y cyfarfod

**7 Chwefror:** Marlyn Samuel: 'Sgwennu Storis'

**25 Ebrill:** Yr Athro Jason Walford Davies: 'Porth y Nef? R.S. Thomas, Peter Hope Jones ac Ynys Enlli'

MARCHNAD OGWEN, Neuadd Ogwen, Bethesda, **yr ail Sadwrn yn fisol, 9.30-1.** Gwybodaeth ar marchnadogwen.co.uk; ysgrifennydd: 07745 430049

PEINT A SGWRS: Grŵp sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr Cymraeg sgwrsio yn anffurfiol ac i Gymry Cymraeg gefnogi'r siaradwyr newydd. Gobeithia'r gŵp gyfarfod yn y cnawd yn ôl y sefyllfa ar y pryd. Tap & Spile (cyferbyn â'r Pier) **am 7pm: 19 Ionawr, 2 Chwefror, 16 Chwefror, 2 Mawrth** (efo cwis i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi). I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Dani Schlick trwy cwisdysgwyr@gmail.com

PONTIO

**25-26 Mawrth:** National Theatre Wales, Theatr Genedlaethol Cymru ac August012 yn ymuno i gydgynhyrchu 'PETULA' – sioe amlieithog ac arallfydol ar gyfer pobl ifanc, comedi swreal am gariad, colled a'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc wrth dyfu i fyny. 382828; pontio.co.uk

**HELP GYDA ZOOM**

**Oes cyfrifiadur gennych, ac awydd gwylio darlithoedd a chyfarfodydd Zoom, ond heb wybod ble i gychwyn? Ga' i drio'ch helpu? Nid oes gen i ddim cymwysterau, ond 'rwyf wedi helpu nifer o bobl i gael eu traed danynt. Y prif beth sydd ei angen ydy medru defnyddio'r cyfrifiadur a chyrraedd at y ffôn yr un pryd, imi gael dweud wrthych ba bethau i'w pwyso. Cysylltwch â mi, Ann Corkett, ar e-bost y Digwyddiadur i gael sgwrs.**

## CPD Y FELINHELI

# Pethau'n edrych yn galonogol

**Dau gamgymeriad tyngedfennol yn yr amddiffyn, oedd fel arall yn wych, gostiodd y gêm i Felin yn erbyn Rhostyllen ddiwedd Tachwedd. Colli 1–2 mewn gêm oedd wir angen ei hennill, yn erbyn un o'r clybiau sydd yn hanner isaf y tabl. Wedi dweud hynny, toeddan nhw ddim yn dîm gwael. Ond toes yna neb gwael yn y gynghrair nagoes.**

Nid oedd gêm wedi ei threfnu yr wythnos ganlynol, gan mai gemau cwpan y gynghrair oedd yn cael eu chwarae, gyda Felin eisoes allan ohoni. Siawns i gael pawb yn ffit a pharod am y brwydrau oedd o'u blaenau.

Trip i Lanrwst oedd i fod yr wythnos ganlynol, ond roedd hi wedi bod yn dywydd mawr – Storm Barra, dim llai. Ac os oes unrhyw gae am fod yn wlyb, yna cae Llanrwst fydd hwnnw. Wythnos arall felly i drio hel meddyliau cyn gêm hollol dyngedfennol ym Mlaenau Ffestiniog. Mae'r rheini ar waelod y gynghrair ac yn ei chael hi reit anodd. Wedi cael ambell sgôr yn eu herbyn oedd yn destun chydig o gywilydd i ddweud y gwir. Rhaid oedd cipio triphwynt yma. Ond nid oes ffasiwn beth â gêm hawdd yng Nghynghrair Ardal Gogledd Orllewin Cymru, fel y crybwyllais gynnau.

Efallai oherwydd y Sadyrnau segur yn y bythefnos cynt, roedd eitha sgwad yn trafeilio i Blaenau. Roedd bws wedi ei drefnu a phopeth, cael ryw fath o drip diwedd blwyddyn teip o beth. Bondio a ballu. Ac ar ddiwrnod gogoneddus o Ragfyr yng nghysgod y Moelwyn, cafwyd gêm hynod o ddiflas a di-fflach. Toedd Felin ddim ar eu gorau, yn cael trafferth creu dim byd yn erbyn y tîm cartref styfnig. I fod yn deg efo Blaenau, roeddynt hefyd yn creu problemau i Felin, yn dod yn agos at sgorio fwy nag unwaith, gyda Guto yn y gôl yn disgleirio unwaith eto.

Roedd rhaid newid rhywbeth, felly dyma Euron y rheolwr yn penderfynu, yn ddewr iawn, newid y llinell ymosod gyda 25 munud yn weddill. Daeth Carwyn Dafydd ac Ifan Dafydd ymlaen yn lle Gavin ac Iwan Bonc er mwyn trio rhywbeth gwahanol. Ac mae'n rhaid fod hyn wedi lluchio Blaenau oherwydd dechreuodd Felin greu ambell i gyfle o'r diwedd. Gyda'r haul wedi mynd a'r oerni wedi cael gafael ar Gae Clyd, a'r gêm yn y munudau olaf, daeth dau eilydd arall ar y cae. Ifan Emyr ac Ifan Stead (oedd adref am y Nadolig) yn lle Connor a Dylan.


Llai na munud yn ddiweddarach, cafodd Euron esgus i glochdar ynglŷn â'i newidiadau craff, gydag Ifan Em yn creu hafoc o flaen gôl Blaenau o gic gornel, cyn i Carwyn Dafydd rywsut roi'r bêl yn y rhwyd. Gôl flêr, gêm flêr, ond be 'di'r ots! Buddugoliaeth bwysig, a Felin yn cael dringo rhyw ddau neu dri lle yn y tabl.

Roedd y trip wedi ei achub, yr awyrgylch yn Nadoligaidd iawn yn y 'Manod' ar ôl y gêm. A toedd hogia Blaenau ddim i weld yn poeni rhyw lawer chwaith. A diolch i sgiliau diplomatig Al Em efo'r cwmni bysys, cafwyd stop bach ym Mhenrhyndeudraeth ar y ffordd adra.

Gêm fawr y tymor oedd nesaf, Nantlle Fêl yn Seilo ar ddydd San Steffan. Ond daeth yr hen ffrind Covid heibio do, a dyna ddiwedd ar hynny. Yn gyntaf, rhaid oedd cyfyngu'r dyrfa i hanner cant. Roedd hyn yn drychinebus i goffrau CPD Y Felinheli, gan fod disgwyl i 200 neu fwy fod yn y gêm. A sut oedd plismona gadael 50 yn unig i mewn? Amhosib. Ond yn fuan wedyn, cyhoeddodd y Gymdeithas Bêl-droed fod pob gêm yng Nghymru wedi'i gohirio, tan o leiaf canol Ionawr mwy na thebyg.

Felly dyna ni am y flwyddyn. Ansicrwydd unwaith eto am y dyfodol cyn belled ag y mae pêl-droed yn y cwestiwn. Ond gyda Felin yn y deuddegfed safle yn y tabl, mae pethau'n edrych yn ddigon iach erbyn i'r gynghrair ailgychwyn. Ac efo'r ffenest drosglwyddo yn agor mis Ionawr, bydd modd arwyddo un neu ddau arall er mwyn cryfhau'r garfan. Mae hyn yn wir i bob clwb wrth gwrs, ac efallai mai da o beth oedd fod Felin wedi chwarae Blaenau pan wnaethon nhw!

Blwyddyn Newydd Dda i bawb, a phob lwc i CPD Y Felinheli.



*Felin v Rhostyllen: Dylan, Connor, Ryan (crysau coch) a Guto'r gôl-geidwad*

# Ffair Nadolig gyntaf y Shed

**Denwyd nifer dda o gwsmeriaid a siopwyr i Ffair Nadolig gyntaf y Shed.**

Fe benderfynwyd cynnal y digwyddiad ar ôl i gwpwl o fusnesau lleol gysylltu â'r Shed i holi am y posibilrwydd oherwydd prinder ffeiriau Nadolig. Yn y diwedd llwyddwyd i ddenu 14 stondin yno – i gyd yn fusnesau lleol.

Ac yn ogystal â'r stondinau man-werthu, cafodd rhan arall o'r adeilad ei neilltuo ar gyfer ymlacio, i bobol gael sgwrs oddi amgylch y goeden Nadolig neu o flaen y tân gyda glasied o win cynnes a mins pei.

Dywedodd Kristina Banholzer, un o'r trefnwyr: "Ryden ni'n hapus iawn hefo sut aeth pethau ac roedd yna lif cyson o ymwelwyr yma drwy'r dydd.

"Roedden ni isio gwneud rhywbeth i gefnogi busnesau bach lleol a jysd er mwyn mwynhau cwmni pobol leol yn yr adeilad yma."

A'r newyddion da i bobol y Felinheli ydi y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal eto y flwyddyn nesaf.

Meddai Kristina: "Roedd o'n llwyddiant ysgubol, ond y flwyddyn nesa' rydw i isio iddo fod yn fwy ac yn well eto.

"Ein bwriad ydi ceisio denu mwy o stondinau bwyd a chrefftau gan obeithio y bydd sefyllfa'r pandemig erbyn y 'Dolig nesaf wedi gwella digon inni gael gwneud hynny yn y gofod sydd ganddon ni."

